# ECO'R WYDDFA

RHIF 55 IONAWR 1981 Pris: 12c


**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Holl Ddarllenwyr yr Eco**

## SIÔN CORN AR EI FFORDD



*Llwyddodd ffotograffydd yr 'Eco' i ddal Siôn Corn wrth ei waith yn paratoi ar gyfer y Nadolig. Er nad oedd yn barod i ddatgelu yn union ble gwelodd o'r hen ŵr, gwyddom ni mai rhywle yng nghyffiniau Penisarwaun yr oedd ar y pryd.*

## COFIO JOHN LENNON – CYN EI ENI!

**Er ei fod wedi ymddeol ers pedair blynedd mae gan un gŵr o Lanrug lawn gymaint o ddiddordeb â'r genhedlaeth iau yn y straeon a'r atgofion am athrylith John Lennon a lofruddiwyd mor giaidd ar strydoedd Efrog Newydd.**

**Mr Cledwyn Williams, cyn-brifathro Ysgol Gynradd y pentref yw'r gŵr, a'r rheswm am ei ddiddordeb yw ei fod yn cofio'r 'Beatle' enwog yn y groth.**

Yn 1940 'roedd Mr Williams yn blismon yn Lerpwl ac yn lletya mewn stryd o'r enw Truro Rd. Gefngefn â'r stryd hon yr oedd stryd o'r enw Newcastle Rd, a'r arfer bob nos, pan ddeuai bomars dieflig yr Almaen, oedd i drigolion y ddwy stryd swatio yn yr un 'air raid shelter', nes i'r ymosodwyr gilio gyda'r wawr.

Ymhlith trigolion Newcastle Rd yr oedd 'hogan od o ddel a throm o feichiog', chwedl Mr Williams, 'wastad gyda gwên ar ei hwyneb a phawb yn gofalu rhoi cadair iddi oherwydd ei chyflwr'.

'Un noson 'ddaeth hi ddim i'r 'shelter' – pawb yn gwybod lle'r oedd hi, a phawb yn bryderus am fod yr ysbyty geni mewn man mor amlwg i'r bomars.

'Ond 'roedd popeth yn iawn, a phan aned y baban, fe'i galwyd yn John Winston Lennon' – y 'Winston' er parch i huotledd Winston Churchill'.

Dywed Mr Williams ei fod hefyd yn cofio mam John



Lennon yn ei wthio yn ei goits.

Ymhen deufis, fodd bynnag, symudodd Mr Williams o'r ardal a chollodd gysylltiad, ond cred iddo siarad eto â'r fam yn 1946. Yn ogystal, bu bron iddo drefnu i letya gyda chwaer i fam John Lennon, a fu hefyd yn ei fagu.

## YN Y RHIFYN HWN

Rhowch gynnig ar y cystadlaethau sydd yn y rhifyn hwn. Ar dudalen naw mae Cystadleuaeth Fawr y Nadolig – Crwydro Bro'r Eco – cyfle i'r rhai ohonoch sy'n adnabod eich ardal i ennill £5.

Ar dudalen 23 mae cyfle i ennill record hir ddiweddaraf y grŵp poblogaidd Edward H. Dafis – 'Plant y Fflam'.

Mae gennym hefyd gemau i'ch diddori dros y gwyliau. Trowch i'r tudalennau canol a'r cefn. Ac ar dudalen 23 mae'ch hen ffefryn, y croesair, yn ôl.

**I'CH HATGOFFA**
**Fel yr eglurwyd yn rhifyn Medi, bydd pris yr Eco'n codi i 15 ceiniog o'r rhifyn nesaf ymlaen.**

## MIRI'R ŴYL YM MHENDALAR



*Sioned Mair Owen o Garmel a Linda Pitts o Lanberis wrth eu bodd yng nghwmni Santa (Owain Griffiths 6ed Dosbarth Ysgol Brynrefail). Trowch i dudalen 8.*

## ADNABOD Y FRO



*Dyma lun tra adnabyddus o fro'r Eco — gŵyr pob un ohonoch o ble y tynnwyd hwn. Ond beth am y lluniau ar dudalen 9? Trowch atynt.*

# ECO'R WYDDFA


**Rhif 55**
**IONAWR 1981**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*


## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Pont-rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515).
**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun. (Penyllyn 438)
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).
**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (Llanbeirs 220)
**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant (Waunfawr 321). Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT:** Ian Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon 3776).
**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen.
**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon 3227).
**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL:** Geraint Elis, Sycharth (Portdinorwic 726)
**BETWS GARMON:** Mrs Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gweledfa, Brynrefail (Padarn 223)
**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO:** Dafydd Price, Tŷ Capel (Llanberis 550)
**DEINIOLEN:** Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)
**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)
**LLANBERIS:** Mrs Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)
**NANT PERIS:** T.J. Roberts, Llys Awel
**LLANRUG:** Mrs Eirlys Pierce, Swyn yr Awel (C'fon 3776)
**PENISARWAUN:** Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, Penisarwaun.
**TAN-Y-COED:** Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Waunfawr 355)
**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, (Waunfawr 626).
**TREFNYDD PLYGU:** Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.
**TREFNYDD BUSNES:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg ar 29 IONAWR
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol erbyn 21 IONAWR os gwelwch yn dda.

# Llythyrau



## PWY SY'N ADNABOD Y BWTHYN?

*Annwyl Mr Jones,*

*Tybed a all unrhyw un o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa adnabod y bwthyn yma. Mae ar ei draed o hyd, nid murddun mohono. Mae hefyd yn ddigon twt, ond fod ôl y blynyddoedd wedi dweud arno. Nid yw'r coed o'i gwmpas bellach, na'r wal o'i flaen, na'r cwt yn yr ochr. Mae ar ochr lôn brysur a thrafnidiaeth helaeth. Ei dalcen sydd i'r ffordd. Nid oes neb wedi byw ynddo er y flwyddyn 1905. Mae'r dresal a welir yn y cefndir ym meddiant rhai o'r teulu o hyd.*

*Fe hoffwn roi dipyn o'r hanes yn y rhifyn nesaf.*

*Yn gywir,*
*(Mrs K. Hughes)*
*1 Rhes Victoria*
*Deiniolen*

*O.N. Er mwyn i chi gael rhyw amcan pwy ydwyf, 'roedd mam Selwyn Bethel yn chwaer i mi. Mae'r darlun gwreiddiol wedi ei dynnu cyn 1902.*

## GADEWCH I'R TRADDODIAD BARHAU

*Annwyl Syr,*

*Yn Eco'r Wyddfa'r mis yma, 'roedd cwestiwn — 'A ddylid dweud wrth y plant nad oes yna Santa Clos'. Na ddylid ar unrhyw gyfri, — gadewch iddynt fwynhau y syniad fod yna un, gyn hired ag sydd bosibl. Yr wyf fi yn hen nain yn awr, ond wna' i byth anghofio y twrw a'r miri fyddai ar fore Nadolig pan ddeffrôi'r plant. Cofio pan oedd fy nhad yn byw gyda ni, dros ei 84 oed a'm merch yn gofyn, "Ydach chwi am roi eich hosan Taid?" a byddai cetyn a baco ynddi erbyn y bore, a hithau'n methu gwybod sut oedd Santa Clos yn gwybod pa faco oedd taid yn smocio. Cofiaf am fy mhlentyndod fy hun, — afal, oren, cnau a melysion a babi dol yn yr hosan, y fath newid yntê, i'r dyddiau yma, gyda'r holl deganau gwerthfawr. Beth fuaswn i yn ei roi heddiw am fedru troi'r cloc yn ôl i'r amser pan oedd miri'r plant yn fy neffro.*

*Gadawn i'r plant gredu yn Siôn Corn. Mae gormod o'r hen draddodiadau yn cael eu colli, peidiwch â gadael i hwn fynd.*

*Yr eiddoch,*
*E. Hughes.*
*Bryn Hyfryd,*
*Groeslon.*

## MATER O AIR

*Annwyl Syr,*

*Ar bwnc y cathod yn y Beibl, gan imi ddweud ar y rhaglen 'Rhwng Gŵyl a Gwaith' nad oes sôn am y gath yn y Beibl gwell imi egluro ar ba dir y dwedais hynny. Yn syml, ar sail yr hyn a ddwedir gan yr ysgolheigion Beiblaidd, sef na olygir wrth y gair 'cathod' yr hyn a adwaenir gennym ni fel cathod ond yn hytrach y 'jackal'.*

*Ar ôl dweud lle y ceir y gair 'cathod' yn y Beibl dwed Geiriadur Charles — 'Barna Bochart a Vitringa mai 'Jackals', gwas y llew, a feddylir wrth y gair hwn.' Ac ymhellach — 'Ond ammeu Parkhurst ai nid math o adar aflan a feddylir wrth y gair."*

*Yn 'Geiriadur yr Ysgol Sabbothol' (Ellis Davies) dwedir gyferbyn â'r cyfeiriadau yn Eseia a Jeremia at y 'cathod' — "yn hytrach Jackals . . . Yn y Cyfieithiad Diwygiedig . . . blaidd neu greadur udlefol a gyfieithir." Am y rheswm hwnnw ni cheir cyfeiriad o gwbwl at gathod yn y 'Temple Dictionary of the Bible' ond ceir yn hytrach sôn am 'jackals' a 'wolves' yn erbyn lle digwydd y cyfeiriad yn Eseia a Jeremia.*

*I grynhoi, y mae'n gywir felly dweud bod y gair 'cathod' yn y Beibl ac y mae'n gywir hefyd dweud nad oes sôn am gathod yn y Beibl.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Harri Gwynn*
*Tyddyn Rhuddallt*
*Llanrug.*

## ATGOFION YN SGÎL CYFRIFIAD 1871

*Annwyl Olygydd,*

*Yn **Eco'r Wyddfa** mis Tachwedd gwelais 'Dalen o Gyfrifiad 1871'. Plwyf Llanddeiniolen, Ardal Penisarwaun, Craig y Dinas (68). Fy Nain a'm Taid oedd William ac Elizabeth Evans. Does gen i ddim cof amdanynt, mae'n siŵr eu bod wedi gadael y fuchedd hon cyn fy ngenedigaeth.*

*Clywed fy mam yn sôn amdanynt, roeddynt yn ofalwyr Eglwys St. Helen ac yn barchus iawn.*

*Fy nhad oedd William Evans y mab ac fe ddaeth y swydd uchod iddynt hwythau yn ddiweddarach.*

*Mae Mr Tegid Roberts yn gofyn oes 'na rywbeth diddorol i'w weld yn y Ddalen.*

*Wel i mi, fy nhad yn ddwy flwydd oed ac heb briodi, a modryb Sarah yn saith mis oed ac hefyd heb briodi; smala iawn ynte. Dim ysgoloriaeth yr adeg honno fel ag y sydd heddiw.*

*Edrychaf ymlaen bob mis am yr **Eco** — hiraeth calon am Gymru annwyl wrth ei ddarllen.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*(Mrs Mary Pritchard,*
*21 Lawrence Ave.,*
*Maulton,*
*Swydd Gaer.*

## BWYTAWR PECHODAU


*Syr,*

*S.O.S. ydy hwn. Mae rhywun yn ardal Llanberis a all fy helpu.*

*Roeddwn yn sôn rai blynyddoedd yn ôl mewn sgwrs ar 'Rhwng Gŵyl a Gwaith' am Fwytawr Pechodau — 'Sin Eater' (siarad yn gyffredinol oeddwn i). Ar ôl y sgwrs anfonodd gwraig o Lanberis lythyr yn sôn am Fwytawr Pechodau yn Llanberis oedd ei nain yn gofio. Un hynod o ddiweddar. Rydw i wedi colli'r llythyr. Tybed fasa'r un wraig yn rhoi pwt yn eich cyfrol nesaf am Fwytawr Pechodau Llanberis. Rydw i'n credu fod 'na un yno flynyddoedd ar ôl i'r arferiad farw allan mewn rhannau eraill o'r wlad.*

*J. Aelwyn Roberts,*
*Llandegai.*


**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo**



**Ffôn : LLANBERIS 814**

**GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

# LLANBERIS

DIOLCH – Dymunaf ddiolch o galon i'm cymdogion, y llu cyfeillion o'r ardal, a thu allan, ac i blant ac athrawon Ysgol Dolbadarn am eu dymuniadau da a'u rhoddion i mi tra yn Ysbyty Glan Clwyd.

Nadolig Llawen i chi i gyd.

Siân Thomas

YN GWELLA – Da deall fod Mrs Joyce Boyle, 5 Stryd Ceunant wedi dychwelyd o Ysbyty Môn ac Arfon ac yn gwella. Rhai wythnosau'n ôl syrthiodd Mrs Gwyneth Williams, Eirianfa yn ei chartref a thorri ei braich. Hithau hefyd Miss Mair Evans, 7 Dôl Elidir wedi disgyn a thorri ei braich. Dymunir iddynt oll adferiad buan. Hefyd Mr Owen Thomas, Stryd Turner, yntau wedi dychwelyd adref o'r ysbyty yng Nghaernarfon.

Y GYMDEITHAS DDRAMA – Llongyfarchiadau arbennig iawn i aelodau'r Gymdeithas Ddrama ar eu perfformiadau yn Llanrug, Llansannan, Brynaerau, Pontllyfni a Phen-y-groes o'r ddrama ddoniol 'Twyllo Modryb Angelina' gan Meirion Powell. Deëllir fod ganddynt berfformiadau eto i ddod yn Ysbyty Ifan, Caergybi, Bala, Llanegryn, Llanfair P.G., Dolwyddelan a Chaernarfon. Diolch iddynt am eu hymdrechion i ddiddori cymaint o bobl mewn gwahanol ardaloedd, a rhoddi cymaint o fwynhad i'r ifanc a'r hen.

CLWB ERYRI – Mr Emlyn Davies fu'n llywyddu'r cyfarfod diwethaf o Glwb Eryri a gynhaliwyd yng Ngwesty Gwynedd. Y gŵr gwadd oedd Mr Arfon Jones. Dyma'r noson gyntaf iddynt wisgo'r tei arbennig i ddathlu pen-blwydd y clwb yn bump ar hugain oed.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yn ystod y mis diwethaf cynhaliwyd pwyllgor blynyddol Sefydliad y Merched dan lywyddiaeth Mrs Hannah Jones. Cydymdeimlwyd â dwy aelod, Mrs Batten a Mrs Mary W. Thomas yn eu profedigaeth o golli rhai annwyl. Croesawyd Mrs Martha Hughes ar ei dychweliad o'r ysbyty. Y pwyllgor am 1981 fydd: Llywydd, Mrs Beti Humphreys, Ysgrifennydd, Mrs Eluned Mai Jones, Trysorydd, Mrs Glenys Jones, Y Pwyllgor, Mrs Jan Davies, Mrs Jean Ellis, Mrs Annie Evans, Mrs Ella Howdle, Mrs N. Owen, Mrs R. Thomas, Mrs Annie Blodwen Jones.

Mwynhawyd y Parti Nadolig yng ngwesty Padarn Lake.

CLWB Y MAMAU IFAINC – Y siaradwr yng nghyfarfod Clwb y Mamau ydoedd Mr Meirion Hughes, Swyddog Iechyd yr Amgylchedd. Llywyddwyd gan Mrs Carys Hughes – gwir fwynhawyd yr anerchiad gan yr aelodau oll.

AR Y RADIO – Llongyfarchiadau'r ardalwyr i Rol Williams Waunfawr ar ei raglen gampus 'Dacw'r Wyddfa a'i Chriw'. Cymerwyd rhan gan Mr Michael Pritchard, Stryd Capel Coch, Mr Clifford Williams, Llanrug, Mr Gwynfor Williams, Y.H., Perisfab, Mr John Ellis Roberts, Mr Evan Roberts, Capel Curig, Hogia'r Wyddfa, Rosalind a Myrddin a Pharti Clychau'r Grug.

RECORDIO – Ar y cyntaf o Ragfyr fe recordiwyd dwy raglen o 'Ganiadaeth y Cysegr' o gapel Jerusalem gyda Mr Irfon Ellis yn arwain y canu, a Mr Robert Lloyd wrth yr organ. Cyflwynwyd yr emynau gan y gweinidog y Parch Hugh John Hughes. Rhoddwyd cyfraniad gan Gôr Plant Ysgol Dolbadarn dan arweiniad y prifathro Mr John Hugh Hughes a Mrs Gwen Hughes yn cyfeilio. Darlledir y rhaglen gyntaf ddechrau'r flwyddyn newydd a'r ail raglen tua chanol mis Gorffennaf.

LLONGYFARCHIADAU – Estynnir llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Francis Jones a Mr Gwynfor Williams ar eu penodiad yn Ustusiaid Heddwch.

Y BLAID LAFUR – Trefnwyd Noson Goffi yn y Ganolfan gan y pwyllgor lleol o'r Blaid Lafur. Y siaradwr ydoedd Mr Bert Thomas, Y.H., a dilynwyd ei araith gydag ymryson bywiog iawn ymysg yr aelodau ifanc. Bwriedir cynnal nosweithiau tebyg eto yn y dyfodol agos.

BABI NEWYDD – Llongyfarchiadau i Alwyn a Dilys Roberts, Arlys, Stryd y Ffynnon ar gael mab bychan. Hefyd i Mr a Mrs Philips, Stryd Fawr ar fod yn nain a thaid unwaith eto.

ORIEL ERYRI – Ar Dachwedd 27 gwahoddwyd cynrychiolwyr cymdeithasau a chyrff lleol gan yr Amgueddfa Genedlaethol i gyfarfod anffurfiol yn Oriel Eryri i amlinellu pwrpas Yr Oriel newydd. Estynnwyd croeso i'r ymwelwyr gan y Cyfarwyddwr Douglas Bassett, BSc.,Phd., ac yna dangosodd luniau o amgueddfeydd eraill. Yn Oriel Eryri fe ddisgrifir ac fe ddehonglir cysylltiad rhwng dyn a natur yn Eryri a hynny ar gyfer ymwelwyr a thrigolion Gwynedd, gwyddonwyr, myfyrwyr a lleygwyr.

Tywysodd y Prif Swyddog, Dr Llŷr Gruffydd, yr ymwelwyr o amgylch yr adeilad wedi ei gynllunio at bwrpas arbennig. Mae ynddo Brif Gyntedd yn cynnwys desg hysbysrwydd a siop lyfrau. Hefyd mae darlithfa gydag offer ar gyfer darlithio, a neuadd arbennig i'w defnyddio gan bartion o blant ysgol ac yn rhannol ar gyfer cyngherddau a gweithgareddau diwylliannol gan grwpiau a chymdeithasau lleol. Mae labordai yno – un ar gyfer staff yr Oriel ac un arall ar gyfer partïon o blant ysgol.

Yn y llyfrgell canolbwyntir ar lyfrau yn ymwneud â gwyddorau'r amgylchedd, ac yn yr Oriel gelfyddyd bydd y tymheredd a'r lleithder o dan reolaeth fanwl fel y gellir arddangos darluniau gwerthfawr heb ofni iddynt ddirywio.

Roedd lluniaeth ysgafn wedi ei drefnu ar gyfer pawb. Bydd rhai misoedd eto cyn y bydd yr Oriel wedi ei gorffen, ond hyn sy'n sicr, bydd yr adeilad hardd â phwrpas iddo, a gwir obeithiwn y gwnaiff pawb ddefnydd priodol o'r lle.

MARW – Brawychwyd yr ardal rai dyddiau yn ôl pan ddaethpwyd o hyd i Mrs Rosina Hughes yn farw yn ei chartref, Llainwen Isaf. I'r llygaid roedd yn iach, a heini ac yn llawn hwyl a direidi gyda phawb yn ei dro. Roedd ganddi feddwl mawr o Eglwys Sant Padarn, ac roedd yn ffyddlon i'r achosion i gyd. Gedy un chwaer, amryw o wyrion a gor-wyrion a chydymdeimlir â'r cyfan yn eu profedigaeth. Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris gyda'r Conon Alun Jones yn gwasanaethu. (Gweler teyrnged ar wahân.)

ROBIN ROWLANDS – Eto, yn frawychus o sydyn, er bod ei iechyd yn ddigon bregus, trawyd 'Robin' (fel yr oedd pawb yn ei adnabod) yn wael tra allan ar neges – aethpwyd ag ef i'r ysbyty ym Mangor lle y bu farw ymhen deuddydd. Cymeriad hynod o hoffus a charedig ydoedd, ac fel ei dad a'i frodyr gynt yn bysgotwr mawr. Dyma lle'r oedd ei bleser, hyd yn oed pan orfu iddo roi'r gorau i'r pysgota, cerddai o amgylch y glannau yn ailadrodd yr hen storïau trosodd a throsodd. Cydymdeimlir â'i weddw, ei chwiorydd, a'r wyrion yn eu colled. Claddwyd ef ym mynwent Nant Peris ddydd Mercher gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu.

DR VYRNWY JONES – Ar ôl dychwelyd adref o'r ysbyty lle bu'n aros am wythnosau lawer bu farw Doctor Vyrnwy Jones. Rhoddodd flynyddoedd lawer o wasanaeth cyson iawn, nid yn unig i'r ardal hon, ond i'r cyhoedd. Gedy weddw, dau fab a merch, ac estynnir cydymdeimlad yr ardal iddynt yn eu profedigaeth.

GARTRE – Lwcus iawn Deian, dy fod wedi cael dod adre o'r ysbyty mor sydyn. Da iawn wir – cei Nadolig hapus gyda mam a dad (Rosalind a Myrddin) a Nain a Taid.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPELI LLANBERIS – Ar Dachwedd 24 cawsom noson yng nghwmni Mr Rol Williams, y Waunfawr. Testun ei sgwrs oedd 'Galifantio' – ei hanes yn mynd o gwmpas Cymru a Lloegr gyda Nosweithiau Llawen, a'r pethau doniol oedd yn digwydd mewn ambell le.

Ar Ragfyr 8 cawsom ddarlleniadau o un o lyfrau'r diweddar Ddr. Lewis Edwards, y Bala, ar 'Addysg yng Nghymru' gan y Parchedig Marcus W. Robinson, B.D.

Dyddiad i'w gofio – Ionawr 19 – J.O. Roberts a'i raglen 'Broc Môn', yn Festri Capel Coch.

EISTEDDFOD – Nos Wener, Rhagfyr 5 cynhaliwyd Eisteddfod Eglwysi St. Peris a St. Padarn. Llywyddwyd gan Mr T. Closs, Cricieth (Cwm Eilir gynt), ac arweiniwyd y cyfarfod gan Mr Cyril Jones. Y beirniad cerdd oedd Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas, gyda Mrs Mary Wyn Jones, Deiniolen, yn beirniadu'r adrodd, a'r Parch C. Smith Williams, Caernarfon, yn beirniadu'r Arholiadau Llafar.

(Mae'r canlyniadau llawn ar dudalen 11.)

DIOLCH – Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Rosina Hughes, Hafannedd, Llainwen, ddatgan eu diolchgarwch llwyraf am bob arwydd o gydymdeimlad, mewn gair a gweithred a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth lem o golli un oedd mor annwyl ganddynt. Diolch hefyd am y blodau hardd a'r llu o gardiau a llythyrau sydd yn rhy niferus i'w hateb yn unigol. Diolch o galon i bawb.

# TEYRNGED I'R DDIWEDDAR MRS ROSINA HUGHES

Ar Dachwedd 28 yn dawel yn ei chartref, Hafannedd, Llainwen bu farw Mrs Rosina Hughes, priod annwyl y diweddar John Hughes. Adnabyddid hi yn annwyl gan ei chyfoedion fel Rosie ac i ieuenctid a phlant y cylch fel Anti Rosie. Cymeriad annwyl ac arbennig iawn oedd Anti Rosie, yn gymaint rhan o Lanberis ac yr oedd Llanberis ohoni hi. Cyfrannodd gymaint yn ystod ei bywyd er budd y gymdeithas a garai. Cofia sawl un o drigolion y pentref y criw noson lawen hawddgar hwnnw o'r pumdegau – Parti Eilian. Anti Rosie oedd un o'r sêr! Cofiwn ei pherfformiadau naturiol ddoniol yn y sgetsus, sgetsus megis 'Y Tri Ffarmwr', 'Tynnu Lluniau', 'y Caffi ym Mharis' a llawer mwy. Cofiwn hefyd ei llais alto swynol yn y perfformiadau cerddorol. Rhoddai ei holl egni y tu ôl i unrhyw achos y byddai yn ymwneud ag o. Bu'n ffyddlon i Barti Eilian, y Côr Merched, y Côr Cymysg, Eglwys Sant Padarn lle 'roedd yn aelod, ac yn ddiweddarach i Glwb yr Henoed. Dyna'r math o berson oedd hi a bydd bwlch yn y gymdeithas ar ei hôl.

Derbyniodd wasanaeth angladdol haeddiannol iawn gydag Eglwys Sant Padarn bron yn llawn o'i chyfoedion, ffrindiau a'i hedmygwyr. Arweiniwyd y gwasanaethau yn yr eglwys a Nant Peris gan y Canon Alun Jones. Mae cydymdeimlad yr ardal gyda'r teulu oll yn eu profedigaeth.

## YSBRYD Y NADOLIG YN LLANBÊR



STORI LULU – Derbyniwyd y llun yma oddi wrth Mrs Vera Rees Hughes, Snowdon Valley a dyma ei stori. Mae'r ast fach 'Lulu' yn bedair oed ond nid yw erioed wedi gallu magu teulu. Cafodd cath Mrs Hughes gathod bach, ac o'r diwrnod cyntaf mae 'Lulu' wedi eu magu fel ei chŵn bach hi. Mae yn eu bwydo bob dydd (fel y gwelwch yn y llun) yn eu molchi, a'u gwarchod a'u dilyn i bob man. Mae 'Millie' a 'Mollie' yn ddwy gath fach hynod o ddel. Nid yw eu mam yn hidio dim amdanynt, ond gadael y magu a'r gofal i 'Lulu'.

Carai Mrs Hughes gael gwybod a oes anifail tebyg i Lulu gan unrhyw un yng nghyffiniau 'Eco'r Wyddfa'.

## PAIS

*Yn y rhifyn cyfredol o 'Pais', y cylchgrawn Cymraeg i ferched, mae lluniau gan John Gwyn Williams o Lanberis o Madam Sera 'Helo Bobol' – sef Glenys Emlyn o'r Bontnewydd – mewn rhai o'i hoff wisgoedd! Bu 'Pais' yn sgwrsio â Glenys am ddillad a ffasiwn y mis hwn a daeth John draw gyda'i gamera i gael lluniau ohoni yn rhai o'r dillad mwyaf diddorol a oedd ganddi yn ei wardrob.*

*Un arall o'r ardal sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn hwn o 'Pais' yw Jennifer Slaven o Ddeiniolen. Mae Jennifer wedi sgrifennu stori fer dda iawn: 'Brathu a Chrafu' dan ei henw cyn priodi, Jennifer Hywel.*

*Gwnewch yn siŵr o'ch copi o 'Pais' y mis hwn felly; fe fydd ar werth yn eich siop bapur newydd leol a'r siopau Cymraeg o ddechrau Rhagfyr ymlaen.*

# CYFARCHION NADOLIG O LANRUG



AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



## BWSIAU ARFON

NADOLIG LLAWEN A

LLANRUG
**(ERIC MORRIS)**
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

BLWYDDYN NEWYDD DDA

---

Dymuna
**DAVID a CAROL**
a holl staff

## GWESTY'R RHYDDALLT
**Llanrug**

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i gwsmeriaid hen
a newydd

---

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

## R&V JONES

SNOWDON STORES
PONTRHYTHALLT
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 4472

PAPURAU NEWYDD
A BWYDYDD

---

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
BERYL a GWEN

## LLYTHYRDY LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2422

---

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

## SIOP DRIN GWALLT

**ELAINE & ALWYN WILLIAMS**

FFORDD YR ORSAF
**LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 2023

---

## GELLWCH YMDDIRIED YN JOHN TREVOR

## Garej Hafod Llanrug

**am geir newydd
ac ail law rhagorol**

BP

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

---



Am bresant Nadolig sy'n para trwy
gydol y flwyddyn –
dowch i weld ein

**Ceginau, Ladylove a Flair; Baddonau (stoc anferth); Gratiau (am brisiau gostyngol); Paent; Papur Papuro; Cushionfloor a Drysau 'Spacesaver' Marley ac Anghenion Adeiladu – tywod, sment, landeri, ffitiadau plymio ac ati a Chymorthion D.I.Y.**

## Winstanley

HOME IMPROVEMENT CENTRE
FFORDD YR ORSAF
**LLANRUG**

---

Dymuna

## H.W.Owen
## Dyn Glo a Chludwr

**LLANRUG**
Ffôn Caernarfon 4426

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll

# GWILYM JONES
## Monumental Works
## LLANRUG

FFÔN:
CAERNARFON 2898

Gwaith Coffäol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll
oddi wrth
deulu

# SIOP a MODURDY
# GROESLON MARC
# LLAN (fihangel-yn-y-g) RUG

Ffôn: CAERNARFON 2445



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll oddi wrth

# *R.Hughes Jones a'r Mab*

SIOP GIG
BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3188





Ar gyfer pob parti . .
I ddathlu pob achlysur . . .



# Gwesty'r Foelas
(Richard a Meirwen Thomas)
## Llanrug
*Ffôn: CAERNARFON 4652*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



Dymuna holl Staff

COFIWCH FOD YMA BRESANT NADOLIG I BAWB –
Dillad Dynion, Merched a Phlant, Teganau, Slipars,
Blancedi, Llyfrau, Carpedi, Bwydydd a Diodydd
*— RHYWBETH I BAWB!*



# Y CO-OP LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 2937

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco

FE'CH SICRHAWN CHI
Y CEWCH EIN GWASANAETH
SIRIOL A'R BARGEINION
ARFEROL TRWY GYDOL
1981

COFIWCH HEFYD —
DIFIDEND O 9c
YN Y BUNT
I
AELODAU'R
GYMDEITHAS

DYMUNA
**WIL a MYRA PRITCHARD**
GWERTHWYR LLEFRITH
CEFN LLWYD
LLANRUG
(Ffôn: Waunfawr 353)
NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

Simneiau glân am bris rhesymol gan
**G. LLOYD**
4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG
*Defnyddir peiriant sugno i lanhau*
Cyfarchion y Tymor i chwi oll!
*Ffôn: Caernarfon 4781*

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth
**GLYN & DENNIS ROBERTS**
DYNION GLO A CHLUDWYR
FFERM TYDDYN RHYDDID
a 4 TAI HERMON
LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 2125 a 5043*

Cyfarchion y Tymor
oddi wrth bawb yn
STORFA
**Mace**
**O.R. & M. PARRY**
**Sgwâr Llanrug**
Caernarfon 2790
Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd
ar gyfer y Nadolig

Cyfarchion y Tymor
oddi wrth
***W.J.GRIFFITH***
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr.*

**SNOWDON GARAGE LLANRUG**
Ffôn: CAERNARFON 3056
ATGYWEIRIO
M.O.T.
GWASANAETH
TORRI LAWR
24 AWR
**TEXACO**
TEIARS
BATRIS
EXHAUSTS
AM BRISIAU
CYSTADLEUOL
NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
STUART, JANET
NIGEL
DAVID, KEN a MALDWYN

# LLANRUG

BABAN NEWYDD – Burgess – Tachwedd 25 yn Toronto, Canada i Catherine (Lovatt) a Donald ganwyd mab, Shaun William, ŵyr i George a Nancy Lovatt, Brwynog. Anfonwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau da i'r teulu, a'n cofion at Mrs Lovatt sydd ar wyliau yng Nghanada.

BEDYDD – Yn ystod y gwasanaeth fore Sul, Rhagfyr 7 yn y Capel Mawr, bedyddiwyd Eifion Pritchard, mab bychan Mr a Mrs Howyn Pritchard Jones, Dolwyn, Glanffynnon, gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – 'Hen Draddodiadau a Choelion' oedd testun sgwrs a gafwyd gan Mr David Whiteside Thomas yn y Gymdeithas ar Ragfyr 2. Y llywydd oedd Mr. R.W. Thomas. Cafwyd gair o ddiolch i'r siaradwr gan Mr Glynne Owen a'r Parch W.O. Roberts.

Yn y cyfarfod nesaf a gynhelir ym mis Ionawr disgwylir Cymdeithas Waunfawr i'n plith.

CYMDEITHAS CHWIORYDD, CAPEL MAWR – Nos Iau, Rhagfyr 4 cynhaliwyd y Ffair Nadolig flynyddol yn y Festri; eleni eto cafwyd noson lwyddiannus iawn. Diolchwyd i bawb am eu rhoddion mewn arian a nwyddau, ac i drefnyddion y noson gan y Parch W.O. Roberts. Diolch yn fawr i'r ardal yn gyffredinol am eu cefnogaeth.

CYMDEITHAS LENYDDOL, CAPEL MAWR – Nos Iau, Tachwedd 20 cafwyd noson ddiddorol ar 'Gymeriadau'r Chwarel' gan y 'Tri Siôn', sef John G. Jones, 22 Talybont, John Williams, Gweledfa a John Wyn Owen, Llain Delyn. Y llywydd oedd Mr Gwilym Williams, Bryn Eifion. Diolchwyd iddynt gan Mr Oswald Davies, Plas Gwyn a Mr Gwilym Owen, Glasgoed, a siaradwyd ymhellach gan y Parch W.O. Roberts. Rhoddwyd y te gan chwiorydd Tanycoed, Mrs Ceinwen Roberts, Ael y Bryn, Mrs Megan Williams, Dwyfor, Mrs J. Hughes, Oerddwr, Mrs Iola Butler, Haddef a Mrs K. Williams, Môr Awel.

Y GOBEITHLU – Bu dau gyfarfod. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Nia Wyn Jones, Sharon Roberts, Michelle Jones a Lynette Evans. Dysgwyd caneuon newydd o'r detholiad dan arweiniad Mrs M. Jones, Ogwen a chymerwyd rhan mewn adrodd a chanu gan nifer fawr o'r plant. Dangoswyd ffilmiau gan Mrs N. Roberts, Annedd Wen, yn cael ei chynorthwyo fel arfer gan Mr John Williams, Gweledfa. Hysbysodd y Gweinidog, y Parch W.O. Roberts iddo dderbyn dwy rodd ar gyfer Parti Nadolig y Plant gan Mr O. Stanley Robets, Brunei (gynt o Eryri) a Mrs Myra Bryn Clarke, Kettering (gynt o 'Y Fedwen'). Dymuna'r plant ddatgan eu diolch i Mr Roberts a Mrs Clarke am eu haelioni mawr gan anfon cofion cynnes atynt. Cynhelir Parti Nadolig yr Ysgol Sul, nos Lun, Rhagfyr 15. Derbynnir rhoddion tuag ato gan Mrs Eryl Roberts, Tyddyn Alis, Mrs Linda Jones, Pant Mwyn a Mr Elidir Owen, Sharel (Arolygwr yr Ysgol Sul).

Y SEINDORF – Tachwedd 26 aeth y Seindorf gyda Seindorf Colwyn i Ruthun i gadw cyngerdd gyda Trebor Edwards. Roedd yr elw yn mynd i gronfa tuag at roi ysgoloriaeth i fyfyrwyr cerdd yng Nghlwyd er cof am y canwr Roland Jones. Y dydd Sadwrn canlynol roedd cystadleuaeth y N.W.B.B.A. ym Mangor. Cafwyd diwrnod difyr iawn yno – ond dim gwobr i'r Seindorf y tro yma. Diolch i Bwyllgor Merched y Seindorf am drefnu stondin lluniaeth ysgafn yno. Dechreuodd gwaith mis Rhagfyr ym Mangor gyda chyngerdd i godi arian i gartref Tŷ Felin. Trefnwyd y noson gan Peter Jones – un o aelodau'r Seindorf a chafwyd eitemau hefyd gan deulu Mr a Mrs R. McMahon. Roedd y cinio blynyddol ym Mron Eryri ar Ragfyr 5. Trefnwyd disco a chafwyd noson dda iawn yno. Rhagfyr 6 aeth y Seindorf i Bwllheli i groesawu Siôn Corn i Bon Marche.

Gobeithia'r Seindorf ddod o gwmpas y pentref i ganu carolau cyn y Nadolig, ac ar ddiwedd 1980 carent ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

PLAID CYMRU – Nos Iau, Rhagfyr 4 cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol, y Cynghorydd Gwyndaf Jones yn llywyddu. Cafwyd adroddiadau gan y swyddogion ar waith y tymor, yn enwedig y cynnydd yn yr aelodaeth, a'i ymgyrch, mewn cydweithrediad ag eraill, i sicrhau y 4edd Sianel i'r Gymraeg. Ar ôl talu'r arian sy'n ddyledus i'r swyddfa ganol a lleol 'roedd gan y trysorydd arian mewn llaw, diolch i ymdrechion y Pwyllgor Adloniant.

Etholwyd Miss Phyllis Elis yn Gadeirydd, Mr John Roberts yn Is-gadeirydd, Mr Goronwy Hughes, Ysgrifennydd, Mr Emlyn Jones, Trysorydd, Mr Gwyndaf Jones, Ysgrifennydd Ariannol, Mrs W.A. Jones, Trefnydd Aelodaeth, Casglyddion, Mrs Vera Williams, Mrs Meirwen Lloyd, Mr Aled Green, Mr R. Lloyd Jones, Ysgrifennydd y Wasg, Mr W.A. Jones, Aelodau'r Pwyllgor, Mr G. Roberts, Mr J. Rowlands, Mr J.W. Griffith, Mr Ifan Parry, Mr G. Roberts a Mr Twrog Jones, ydyw'r Pwyllgor Adloniant. Mae'r Cynghorwyr Sirol a Dosbarth yn aelodau o'r pwyllgor yn rhinwedd eu swydd ond yn rhydd o ddyletswyddau gweithredol y blaid. Cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Etholaeth – y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd, y Trysorydd, Ysgrifennydd y Wasg a Mr Selwyn Williams. Os methai rhai o'r uchod â bod yn bresennol mae gan yr Ysgrifennydd hawl i alw eraill o'r pwyllgor i gymryd eu lle.

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr Aled Gruffydd, Trefnydd newydd y Blaid yn Arfon. Cafwyd anerchiad grymus ac effeithiol ganddo a diolchwyd iddo am ei bresenoldeb.

NOSON GOFFI – Yn ddiweddar bu i Undeb y Mamau fod yn gyfrifol am redeg noson goffi er budd cronfa Yr Arthritis a chafwyd llwyddiant mawr ar y fenter. Yr oedd y derbyniadau yn £141.50 ac ar ôl talu costau o £3 y mae elw clir o £138.50 i'w drosglwyddo i'r gronfa. Dymunwn ddiolch i Mr Derfel Gruffudd Prifathro yr Ysgol Gynradd am ei barodrwydd inni gael defnyddio neuadd yr ysgol; i Mrs Joan Williams a merched y gegin am eu cydweithrediad parod; i bawb a fu'n gwerthu tocynnau ac i'r cyhoedd am eu hymateb. Cafwyd rhoddion mewn arian a theisennau a nwyddau ac fe ddiolchwn i'r llu cyfeillion am eu caredigrwydd.

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd gwasanaeth carolau aelodau Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Mihangel o dan arweiniad y Rheithor. Y Parch Clifford Smith Williams, Curad cynorthwyol Caernarfon a roes yr anerchiad. Wedi'r gwasanaeth darparwyd lluniaeth ysgafn gan Mrs Williams yn y Rheithordy a hi hefyd oedd yn llywyddu'r cyfarfod busnes. Diolchwyd i'r Parch C.S. Williams ac i'r Rheithor a Mrs Williams gan amryw o'r aelodau.

DRAMA – Bu llwyddiant mawr ar berfformiad Cwmni Drama Llanberis o 'Twyllo Modryb Angelina' yn neuadd Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Yr oedd yr elw er budd Eglwys Sant Mihangel Llanrug ac fe ddymuna'r Rheithor a'r Wardeiniaid ddiolch i'r Prifathro am ei gydweithrediad yn rhoi benthyg y neuadd i ni. Diolchwn hefyd i'r stiwardiaid, y gwerthwyr rhaglenni a'r gwerthwyr tocynnau am eu cydweithrediad parod. Fe werthfawrogwn y gefnogaeth gan drigolion Llanberis, Penisarwaun a Deiniolen yn fawr iawn ac y mae'n diolch i bobl Llanrug a Chwm-y-glo yn fawr iawn. Fe wnaed elw clir o £133.31.

GWAELEDD – Estynnwn ein dymuniadau am adferiad buan i Mr Williams, Llys Orwig sydd wedi ei gymryd i Ysbyty Môn ac Arfon. Y mae'n dda gweld Mr T. Jones, 6 Rhos Rug wedi cael adferiad unwaith eto. Y mae Miss Dilys Jenkins, Pen'rallt yn Ysbyty Môn ac Arfon hefyd ar ôl damwain flin yn ei chartref ac estynnwn ein dymuniadau am adferiad buan iddi hithau hefyd, ac fe anfonwn ein cofion at Mrs S. Morris, Erw Hywel, sydd wedi mynd i Blas Hedd, Bangor am gyfnod. Deallwn hefyd fod Edwin Jones, 19 Bro Rhyddallt wedi cael triniaeth feddygol a'i fod yn gwella yn foddhaol.

GWASANAETHAU'R NADOLIG YN EGLWYS SANT MIHANGEL – Nos Fercher Rhagfyr 24 11.30 p.m. Offeren gynta'r Nadolig. Dydd Nadolig – 10.15 a.m. Cymun Bendigaid, 11.15 a.m. Gwasanaeth Saesneg.

CYDYMDEIMLAD – Ein

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


SETIAU TELEDU LLIW
A MONO
AIL LAW

Hefyd
ATGYWEIRIO

**T. CEPAS**
FFORDD YR
ORSAF
**LLANRUG**
*Ffôn: Llanberis 205*

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA I CHWI OLL



*Nadolig Llawen a*
*Blwyddyn Newydd*
*Dda oddi wrth*

**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574

*PEN CIGYDD Y FRO!*

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta.
Archebion ar gyfer
y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!



*CYFARCHION Y TYMOR*
*A*
*DYMUNIADAU GORAU 1981*
*oddi wrth*
*NEIL, IRIS, TONY, DOT A MARGARET*

**y Siop Sglodion**
**Pontrhythallt**
**Llanrug**

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
PETER, MURIEL A HOLL STAFF
GWESTY
**GLYN TWROG**
**LLANRUG**
Bellach ar ei newydd wedd!
Diolch yn fawr
am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn
*Dewch i fwynhau gwledd o ganu*
*Cymraeg bob nos Wener.*

## LLANRUG *(parhad)*

cydymdeimlad â Mr a Mrs Jones, Tai Arfon ac â'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli eu plentyn Emma Louise yn chwech wythnos oed.

MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth, Rhagfyr 9 aeth tyrfa luosog o aelodau Merched y Wawr Llanrug i Westy Gwynedd, Llanberis i fwynhau eu Parti Nadolig Blynyddol. Llywyddwyd gan lywydd presennol y gangen Miss Phyllis Elis, a diolchwyd iddi am ei chyfraniad i lwyddiant y noson gan Mrs Nancy Roberts.

Wedi'r ciniawa mwynhawyd noson ddifyr yn canu carolau a chwarae gemau hwyliog, doniol. Noson o wir fwynhad oedd hi – y lle yn atsain o chwerthin iachus, gyda seibiau o ganu swynol, tymhoraidd yn ein hatgoffa o'r Ŵyl gysegredig sydd wrth y drws.

Mewn gornest rhwng Llanrug, Ceunant, Tan-y-coed a Phenisarwaun, Penisarwaun a enillodd.

Diolchodd y llywydd i'r ysgrifennydd Mrs Eirlys Pierce a'r dirprwy ysgrifennydd Mrs Heulwen Rees Jones am drefnu noson mor lwyddiannus; i bawb drefnodd y gemau, i Mrs Megan Roberts am gyfeilio ac i Westy Gwynedd am ddarparu mor helaeth ar ein cyfer.

Anfonwyd cofion a dymuniadau da'r parti i Mrs Eirlys Pierce oedd yn absennol oherwydd gwaeledd. Dymunwyd adferiad iechyd buan iddi.

# BARGEN DINORWIG



Yn y flwyddyn 1962 y cyhoeddwyd un o'r cyfrolau mwyaf cynhwysfawr a mwyaf manwl ar fywyd y chwarelwr. Fel pwtyn o fyfyriwr yng Ngholeg Addysg Dinas Caerdydd bu'r gyfrol yn gymorth amhrisiadwy i mi, oherwydd na chefais i, yn anffodus, mo'r fraint na'r anrhydedd o weithio cyfnod yn Chwarel Dinorwig er fy mod yn enedigol o Lanberis. Bûm yn troi tudalennau'r gyfrol yn fynych am wybodaeth, yn enwedig pan oedd gofyn arnaf i siarad a sgwrsio am fy mro a'i chymdeithas yng ngwŷdd fy nghyd-fyfyrwyr. Y llyfr hwnnw oedd 'Canrif y Chwarelwr' wrth gwrs, a'r awdur – Emyr Jones. Tybiais bryd hynny ar ôl cyhoeddi'r gyfrol na feiddiai neb ysgrifennu mwy am y chwarel a'i chymdeithas, nid oedd yn bosibl i unrhyw un arall draethu rhagor ar y pwnc.

Darniwyd fy namcaniaeth ryw wythnos yn ôl! Mae 'Bargen Dinorwig' yn y siopau eisoes. Yr awdur? Neb llai nag Emyr Jones ei hun, awdur 'Canrif y Chwarelwr'. Sawl tro y bûm yn sgwrsio a thrafod 'Canrif y Chwarelwr' ag Emyr a sawl tro y clywais o'n dweud mai 'crafu'r wyneb megis' a wnâi'r gyfrol. 'Roedd llawer mwy i'w ddweud – a choeliwch fi fe gawn fwy yn 'Bargen Dinrowig'.

Yn ei ragarweiniad dywed yr Athro Bedwyr Lewis Jones, 'Daw haneswyr economaidd yn y man, mi wn, i roi inni hanes y diwydiant a'i ystadegau – yn Saesneg. Dim ond cyn-chwarelwr a hwnnw'n llenor a allai roi inni bortread o chwarel. Dyna pam mae'r gyfrol hon mor werthfawr. Mae stori un chwarel yma'n gyfan, – y cloddio cyntaf a'r datblygu, y ceir gwyllt a'r peiriannau, y ponciau a'r gelltydd a'r sinciau, hanes sefydlu Undeb a'r Cloi Cellau, y perchenogion a'r cynffonwyr, y barics a'r ysbyty a'r caban." Yn wir, mae'r cyfan yma, wedi ei gofnodi'n 'ddifyr a diddan' gan un o brif lenorion y genedl.

Mae ambell lyfr yn haeddu ei le yn anrhydeddus yn ein cartrefi yn hytrach na'i fenthyca o lyfrgell neu gan ffrind. Dylsai'r llyfr hwn for 'wrth law o hyd' i bawb o drigolion bro'r Eco. Dyma ein doe a'n hechdoe ni, a'n dyletswydd ni ydyw sicrhau fod ein plant a phlant ein plant yn cael y cyfle, beth bynnag, i 'darllen' am y 'glendid a fu'.

Cyflwynir y llyfr i'r 'gweddill prin o gyn-chwarelwyr Dinorwig'.

Cyhoeddwyd gan Tŷ ar y Graig. Pris £3.

Arwel Jones.

## RHODDION

**Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau'r Eco**
**£1.00: Mr a Mrs H.T. Lewis, Ermington, N.S.W. Awstralia**
**£1.00: Di-enw.**
**£1.15: Mr Ronnie 'Llanbabs' Williams, Caerlŷr.**
**£2.00: Di-enw; Montreal.**
**£2.00: Mrs E.J. Owen, Southport.**
£5.00 – Mr a Mrs John Roberts, Hafannedd, Glanhwfa Road, Llangefni.
£1.00 – Mr a Mrs O.G. Lewis, 33 Hafod Olau, Deiniolen.
£3, Mr a Mrs Gwilym Roberts, Chester House, Deiniolen.

## BYNSAN BINC YN Y FRO

Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco gwelwyd erthygl ar Theatr Bara Caws. Byddwch yn falch o glywed eu bod yn ymweld â bro'r Eco yn y dyfodol agos. Maent yn perfformio 'Bynsan Binc' yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, Ionawr 13 am 7.30 o'r gloch. Mae'r tocynnau'n costio 50c (25c i blant a phensiynwyr). Gwyliwch y posteri yn eich pentrefi.

# SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

PARTI PLANT PENDALAR
Rhagfyr 16 cafwyd Parti Nadolig i ddisgyblion Ysgol Pendalar, Caernarfon, a drefnwyd gan ddisgyblion y 6ed dosbarth. Cafwyd ymweliad gan Siôn Corn fu yn rhannu anrhegion i'r plant.

DISGOS NADOLIG
Rhagfyr 16 cafwyd disgo yn y prynhawn i aelodau dosbarthiadau 1 a 2, a gyda'r nos cynhaliwyd disgo i weddill yr ysgol.

MYNYDDA
Dydd Llun, Rhagfyr 15 ymwelodd Mrs Noreen Manning a rhai o ddisgyblion yr ysgol â chanolfan weithgareddau allanol Rhyd-Ddu. Buont yno am dri diwrnod yn mynydda ac yn cerdded o gwmpas y wlad.

GWASANAETH CAROLAU
Nos Iau, Rhagfyr 18 cynhaliwyd noson o garolau yn yr ysgol. Trefnwyd y cyfarfod gan yr athro cerdd, Mr Gwyndaf Parry, a chymerwyd rhan gan ddoniau'r ysgol.

DAWNSIO ALBANAIDD
Yn ystod y mis cafwyd noson o ddawnsio Albanaidd yn yr ysgol. Trefnwyd y noson gan Mrs Marjorie Wroe i gaslu arian tuag at Gronfa'r Ysgol.

DAGRAU'N LLIFO
Dydd Mercher, Rhagfyr aeth Mrs Anne Christabelle Owen a pharti o'r ysgol i weld y ffilm enwog 'Gone With The Wind' yn Theatr Gwynedd. Aeth Mrs Owen, sydd wedi gwirioni efo Rhett Butler (Clark Gable), â bocs mawr o 'Kleenex' gyda hi i'r Theatr.

Yn ystod y mis hefyd bu Mrs Noreen Manning a Mrs Mary Hughes, a thua deugain o blant, yn gweld y 'Merchant of Venice' yn y Theatr.

COLLI FFRINDIAU
Ar ddiwedd y tymor collodd yr ysgol wasanaeth dwy o'r athrawesau. Mae Mrs Mary Wyn Jones, o Fethel, sydd wedi bod yn yr ysgol ers pum mlynedd, yn ymddeol i edrych ar ôl ei mab bychan, Rhys. Lwc dda i Mary yn y dyfodol.

Lwc dda hefyd i Miss Caroline Davies, Rhosgadfan, sydd yn yr ysgol ers dau dymor, ar ei swydd newydd, fel pennaeth ymarfer corff genethod Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

O.N. Anghofiwyd enwi Christopher Lloyd, Pen-y-Pas, yn y rhestr wobrwyon mis diwethaf. Cafodd wobr am ganlyniadau lefel O canmoladwy. Drwg gennym Chris.

PÊL-DROED A PHÊL-RWYD YR URDD
Ar Ragfyr 11 fe chwaraeodd timau ysgol yn rownd gyntaf cystadleuaeth yr Urdd yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle. Aelodau'r Urdd yn unig oedd yn cael chwarae yn y gemau yma.

Bechgyn dan 13, ennill 11-4. Huw Jones o Lanrug yn sgorio 7 gôl i'r ysgol yn y gêm yma. Mae Huw wedi sgorio cyfanswm o 25 o goliau i'r ysgol hyd yn hyn y tymor yma.

Bechgyn dan 15, colli 5-2. Yn y gêm bêl-rwyd colli wnaeth y genethod 19-5.


THEATR GWYNEDD

THEATR CYMRU
yn llwyfannu llawenydd mwyaf y flwyddyn
yn ei bantomeim mawr


RASUS CYMYLAU

Rhagfyr 22 – Ionawr 10

Ysgafnder gwlanog, hapusrwydd heulog ac enfysau o liw wrth ddilyn helyntion gwamal a chyffro ceisio dod o hyd i grochan aur y liwgar Mrs Enfys
Cewch gwrdd â'r twymgalon Mr Haul a'r danbaid Heulwen Haf
Daw cawodydd o hwyl o gyfeiriad Ifan y Glaw
A bydd Morus y Gwynt yn eich sgubo oddi ar eich traed
MYNNWCH EICH TOCYNNAU NAWR TRA BO SEDDAU AR ÔL
Am fanylion llawn am holl berfformiadau Bangor, gostyngiadau i bartion etc., ffoniwch:

BANGOR 51708


# CRWYDRO BRO'R ECO
# CYSTADLEUAETH Y NADOLIG

















Honna gweithwyr yr Eco eu bod wedi dod i adnabod daearyddiaeth bro'r papur yn bur dda bellach. Beth amdanoch chwi'r darllenwyr? Dyma 6 llun i'ch rhoi ar eich prawf. Ble roedd ein ffotograffydd pan dynnodd y lluniau tybed? I'ch helpu mae map o'r ardal wedi ei baratoi ac arno mae nifer o safleoedd wedi'u marcio â llythrennau. Eich tasg chwi yw cysylltu'r safleoedd â'r lluniau drwy roi'r llythyren gywir gyferbyn â'r llun cywir. Er enghraifft, os ydych yn meddwl fod llun 3 wedi ei dynnu yn safle B yna byddwch yn ysgrifennu 3B, ac yn y blaen.

I wneud pethau ychydig yn fwy diddorol rydym wedi gosod nifer o safleoedd hwnt ac yma ar y map – ond cofiwch, dim ond **chwech** ohonynt all fod yn gywir.

Ewch ati! Bydd £5.00 o wobr am yr atebion cywir cyntaf i'w tynnu o'r het.

Anfonwch eich ceisiadau i **Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug erbyn 17 Ionawr 1981.**

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

## ANRHEG ALAFON

Cefais fenthyg cyfrol o 'Gymru'r Plant' 1903 gan Mr Owen, Tyddyn Corn, Pontrug. Diolch i Mr Owen. Y peth cyntaf yn y gyfrol ydyw hanes 'Cân Yr Hogyn Diog' wedi ei anfon gan Alafon, gweinidog Ysgoldy, Clwt-y-bont, gynt. Ymddengys yr hanes yn rhifyn Chwefror 1903. Fel hyn y mae Alafon yn dweud yr hanes.

### CÂN YR HOGYN DIOG

"Hen ŵr tawel, tirion, oedd fy ewythr oedd yn medru'r gân am yr hogyn diog. Am ei fod yn wael gan afiechyd blin byddai yn brudd a distaw yn ei gongl bron bob amser, tra bûm i (yn fachgen pur ieuanc) yn aros yn ei dŷ. Fe fyddai yn gwrando yn ddi-gŵyn ar fy nghefnder a minnau yn siarad, a darllen, a chanu, ond prin y dywedai ddwsin o eiriau mewn dechreunos. Ryw noson, fodd bynnag, tua'r Nadolig, fe ddywedodd yn sydyn, a golwg hanner cellweirus arno, "Mi ganai i chwi gân os mynnwch, na chlywsoch chi 'rioed moni." Ac fe wnaeth, er dirfawr syndod a mwynhad i bawb ar yr aelwyd. Ni a aethom i chwerthin gormod i'w dal a'i deall ar y tro cyntaf, a bu raid iddo ei hailganu, er mor anodd oedd cael ganddo wneud. Mi a'i dysgais yn y fan, ac yr wyf yn ei chofio o hyd. (Hawdd oedd dysgu pethau y pryd hwnnw, yn enwedig hen gerddi difyr.) Gwir a ddywedodd f'ewyrth, na chlywsem erioed mohoni. Ac ni welais i neb ar ôl hynny wedi ei chlywed erioed, na dim tebyg iddi (o ran y geiriau). Dyma yr unig gân i mi ei chanu yn effeithiol. 'Rwy'n cofio fy nghyfaill Puleston ryw noson wlawog bell yn ôl yn disgyn oddiar y gadair yn yr ystafell yma, ac yn ymestyn ar y llawr bron mewn llewyg, wrth ei gwrando. Ac nid efe yn unig a orchfygwyd ganddi. Fe fu mwy nag un mab a merch pur enwog mewn ymdrech awyddus yn ceisio ei dysgu. Wn i ddim a ydyw Mrs Ellis Jones-Griffith yn ei chofio hyd yn awr. Hi fu unwaith. Mi goeliaf fod Miss L.M. Lloyd, B.A., yr Ysgol Sir Llandrindod, hefyd yn ei chofio. O'r plant, y mae Meredydd Foulkes Llanberis wedi ei dysgu'n dda ac yn medru ei chanu'n ddoniol. Yn awr yr wyf yn ei rhoi yn anrheg i ddarllenwyr llon 'Cymru'r Plant'.

Alafon, 1903.

Neithiwr yr euthum i dŷ fy nhad,
I geisio'n rhad, i dŷ fy nhad,
Neithiwr yr euthum i dŷ fy nhad,
I geisio'n rhad fy nghinio.

A dim o'r bwyd ac yno ni chawn,
Ac am na bawn ac yno ni chawn,
A dim o'r bwyd ac yno ni chawn,
Ac am na bawn i'n gweithio.

Mi gododd fy mam i roi 'mi fwyd
"Fy machgen llwyd," i roi 'mi fwyd,
Mi gododd 'y mam i roi 'mi fwyd,
"Fy machgen llwyd, ty'd heibio."

Mi gododd 'y nhad ac atom i'r llawr
A phastwn mawr ac atom i'r llawr
Mi gododd 'y nhad ac atom i'r llawr,
A phastwn mawr 'n 'i ddwylo.

Yr ysgub i mam, a dyna hi'n wald –
O hald i hald a dyna hi'n wald,
Yr ysgub i mam, a dyma hi'n wald –
O hald i hald yn waldio.

'Y nhad a ro'i ffat, a mam a ro'i ffat,
O'n toeddan nhw'n ddigri o ffat i ffat?
'Y nhad a ro'i ffat, a mam a ro'i ffat,
On 'toeddan nhw'n ddigri'n ffatio?

'Roedd well gin i gael gwelad hyn,
Na siwgwr gwyn gael gwelad hyn,
'Roedd well gin i gael gwelad hyn
Na siwgwr gwyn i'm cinio.

*(Gallaf roi yr alaw mewn sol-ffa i unrhyw un a hoffai ei chael. M.Ll.W.)*

### GWRANDO, GWRANDO

**Gwrando, gwrando cân ehedydd,**
**Gwrando cruglais ieir y mynydd,**
**Gwrando'n effro ar wag ganu,**
**Gwrando'r bregeth wedi cysgu.**

**Gwrando'r bore sŵn yr awel**
**Ar y dail fel suad angel,**
**Gwrando pan fo'r nos yn duo**
**Sŵn y corwynt oer yn curo.**

**Gwrando, gwrando mellt a th'ranau,**
**Gwrando'r dŵr yn torri'r creigiau,**
**Gwrando tyniad nwydau natur,**
**Gwrando cyngor heb ei wneuthur.**

**Gwrando, gwrando llais cydwybod**
**Yn ymachwyn ar fy mhechod:**
**Gwrando, gwrando ar fy ngliniau**
**Am ryw lais yn dweud ei faddeu.**

*Allan o'r Cymru Mawr 1913, Glan Rhyddallt.*

### CYFARCH Y FLWYDDYN NEWYDD 1981

**Ein Iôn doeth a'n bendithio – a blwyddyn**
**Heb leiddiad na chyffro:**
**Blwyddyn a'r byd yn bloeddio**
**'Heddwch', heb dristwch, heb dro.**

*Glan Rhyddallt*

### CYWIRO

Anghofiodd yr argraffwyr roi siwgr yn y cyflath yn ein rhifyn diwethaf. Fel hyn y dylasai resipi Mrs K. Davies, 21 Bro Rhyddallt fod wedi darllen.

#### Y CYFLATH GADD Y WOBR

*Hanner pwys o fargarin (neu fenyn)*
*Tri chwarter pwys o driog du (neu syrup)*
*Tri chwarter pwys o siwgr*
*Dwy lond llwy fwrdd o ddŵr*
*Un llond llwy fwrdd o finegr*
*Dau ddiferyn o sudd lemon*

– Ymddiheurwn, Golygydd.

Derbyniais lythyr diddorol gan Mr George Herbert Jones o 19 Crawshaw Drive, Healey, Rochdale. Nid yw gofod yn caniatáu cyhoeddi'r llythyr i gyd, ond mae Mr Jones yn cyfeirio at gyfeillion iddo o gylch Llanberis a fu'n gweithio ar y Rheilffyrdd am flynyddoedd. Mae Mr Jones bellach ar drothwy ei 80 oed. Fe'i ganed yn Parciau Isaf, Gaerwen, a gof Llanddaniel oedd ei dad. Aeth i weithio ar y rheilffyrdd, a'i waith oedd glanhau'r injans stêm. Ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd yn gweithio yng Nghaer, ac yno y cyfarfu â'r cyfeillion o Lanberis. Roeddynt yn gweithio oriau meithion, o chwech y bore hyd hanner awr wedi pump yr hwyr, a'r cyflog yn un bychan.

Ar ddiwedd 1919 symudwyd nifer o'r gweithwyr o Gaer i le o'r enw Springs Bank ger Wigan i fod yn daniwyr ar y trenau. Symudodd Mr Jones i Bury yn 1933 ac yno yr ymddeolodd o fod yn ddreifar trenau.



Mae'r llun yn dangos y gweithwyr yng Nghaer ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Rhes flaen (chwith i'r dde):** *1. Owen Thomas Jones — gyrru'r trên yn Springs Bank, Wigan — brodor o'r Felinheli yn wreiddiol, ond bu mewn cartref i blant morwyr yn Lerpwl. Bu farw rai blynyddoedd yn ôl. 2) Cadwaladr Tecwyn Lloyd — gyrrwr trên yn Particroft, Manceinion — brodor o Lanberis; yntau hefyd wedi marw beth amser yn ôl. 3) John Michael Morris o Lanberis — bu'n gweithio ar y rheilffyrdd yn yr India am amser. Daeth yn ôl i Lanberis i fyw. Tynnwr coes yn ôl Mr Jones.*

**Rhes Uchaf (chwith i'r dde):** 1) George Herbert Jones (neu Georgie Gaerwen fel y'i gelwid).

2) John Easter Roberts o Dŷ Capel Nazareth, Pontrug – mab i 'Harry bach' oedd yn arwain corau meibion yn y cylch. Symudodd i Carnforth 'steam town' i weithio. Mae mab iddo, Cledwyn Roberts yn brifathro yn Morcambe, a chwaer i John Easter wedi ymddeol o fod yn brifathrawes yn Salford. Bu'n gynghorydd yn Carnforth ac yn gadeirydd y fainc yn Lancaster.

'Papur Menai' fydd Mr Jones yn ei dderbyn, ond mae bellach yn edrych ymlaen at weld copi o 'Eco'r Wyddfa' hefyd. Diolch am eich llythyr diddorol.



Plentyn yn cwyno fod pawb yn yr ysgol yn canu i un bachgen bach cyn y Nadolig. Y gân? "Iorwerth mewn preseb"!


E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn 202
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Y Bistro
45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: PADARN 278
Pryd gorau'r fro.

# DINORWIG

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL – Nos Iau, Tachwedd 26 yn y Ganolfan, cafwyd sgwrs ddiddorol gan y Cynghorydd R. Gwynedd Roberts, Bangor, ar weithgareddau'r Cyngor Sir. Cymerwyd rhan mewn trafodaeth wedi'r sgwrs gan amryw o'r aelodau. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd R.E. Williams, Maes Eilian, a thalodd ef a Miss E. Wyn Jones, Ty'n Fawnog y diolchiadau i'r siaradwr. Yr un noson cyflwynodd y Cynghorydd R.E. Williams amlinelliad o gynllun Trydan Dinorwig i adeiladu man-edrych (view-point) ar safle hen chwarel Dinorwig. Bwriedir hwn er hwylustod i ymwelwyr ac eraill fwynhau'r golygfeydd o gwmpas.

Nos Iau, Rhagfyr 4, yn y Ganolfan cafwyd sgwrs a sleidiau ar Wlad Israel gan Miss Gaynor Bassett, Llanllechid. Canolbwyntiodd ei sylwadau ar sleidiau i ddangos cysylltiadau a digwyddiadau ym mywyd yr Arlgwydd Iesu Grist. Cyflwynwyd y siaradwraig i'r aelodau gan lywydd y noson. Mr Hugh Thomas, Bro Elidir; ef hefyd gyda'r Parch Ifor L. Williams, Bangor a ddiolchodd am y sgwrs dra diddorol.

DAMWAIN – Drwg gennym ddeall i Mrs Mary Davies, Bron Myfyr gynt, gyfarfod â damwain tra'n aros ym Mhlas Penygwaith, Llanberis. Torrodd asgwrn y glun a bu yn Ysbyty Môn ac Arfon yn cael triniaeth lawfeddygol. Erbyn hyn mae yn Ysbyty Eryri. Anfonir ein cofion ati gan ddymuno gwellhad buan iddi. Yn ddiweddar dathlodd ei phen-blwydd yn 91 mlwydd oed.

MARW – Dydd Sul, Rhagfyr 7, yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor, bu farw'r Dr D.A. Vyrnwy Jones, Marteg, Llanberis. Cydymdeimlir â Mrs Kathleen Jones, ei weddw, a'r plant, ynghyd â'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth. Rhoddodd flynyddoedd lawer o wasanaeth diflino a gwerthfawr i'r ardal fel meddyg teulu.

COFION a dymuniadau da i rai sydd mewn ysbytai a chartrefi'r henoed, ac i'r ardalwyr sy'n cwyno yn eu cartrefi. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda iddynt hwy a'r ardalwyr oll.

## CANWYD Y PENILLION ISOD GAN GRIFFITH THOMAS, FACHWEN A FU'N GÔR-FEISTR ST. MAIR AM 35 MLYNEDD

Ar achlysur ymddeol Mr Henry Williams, Llidiart-y-Clo, Dinorwig o fod yn glochydd Eglwys St Mair am 39 o flynyddoedd.

**Fe ganodd gloch yr eglwys**
**Ei chnul i lawer blwydd**
**Ond y mae heno'n canu**
**Ei chnul ar derfyn swydd**
**Mae'r llaw fu'n tynnu miwsig**
**O'r gloch am flwyddi hir**
**Yn cael ei chodi heno**
**Gan lewion mwya'n tir.**

**Fe ganwn innau glodydd**
**I ganmol gwaith y gŵr,**
**Ei flwyddi o ffyddlondeb**
**Sy'n haeddu clod yn siŵr.**
**Llawenydd yr offeiriaid**
**Rho'r Warden fyd yn grwn**
**Am gael clochydd Eglwys**
**Mor hawdd ei drin â hwn.**

**Naill Sul 'rôl llall fe'i gwelid**
**Yn cerdded tua'r Llan**
**Ni welwyd drycin eto**
**Ai rhwystrodd ef i'r fan.**
**Er mai'r un gân oedd ganddo**
**'Run alwad Sul 'rôl llall**
**Fe'i clywid yn ei chanu**
**I'w adeg yn ddi-ball.**

**Ni fyddai eisiau esgus**
**'Run fath â saint pob man**
**Gan byddai ef bob amser**
**Yn barod yn y Llan.**
**I ganu haf a gaeaf**
**Pan ruai'r gwynt yn groch**
**Fe'i clywid ef yn canu**
**Trwy gyfrwng yr hen gloch.**

**Ar hwyrddydd haf fe glywid**
**Ei sain dros bant a bryn**
**Pwy wŷr na byddai'r nefoedd**
**Yn gwrando'i gân bryd hyn**
**Mae'r nef yn hoffi'r ffyddlon**
**Beth bynnag fyddo'i waith**
**Fe wrendy ei acenion**
**Beth bynnag fyddo'i iaith.**

**Bydd clywed cloch yr eglwys**
**Yn nefoedd iddo ef.**
**Pwy ŵyr na chlyw ei galwad**
**Hyd lwybrau aur y nef?**
**Gwobwya'r nef y ffyddlon**
**Beth bynnag fyddo'i waith**
**Ffyddloniaid gaiff y nefoedd**
**Beth bynnag fyddo'i hiaith.**

**'Rôl galw'r Saint i'r Eglwys**
**Eisteddai yn ei sedd**
**A rhyw dawelwch hyfryd**
**I'w weled ar ei wedd.**
**Boed iddo'r un tawelwch**
**Yw ein dymuniad ni**
**Nes clyw y gloch yn galw**
**I'w gartref dros y lli.**

*Cyfansoddwyd gan y Diw. Dyfed Thomas, Nant Peris gynt.*



*Llun: Dosbarth Ysgol Sul St. Mair, Dinorwig tua 1906-08. Rhes gefn: Margaret Hughes, Tan-y-Bwlch; Kate Thomas, Siop Chwarel; M.E. Davies, S.J. Evans. Rhes ganol: Elizabeth Williams, Chwarel Goch; Alice Parry, Brynffynnon; Athro: Pierce Jones, Mrs Joseph Salt, —? Blaen: Nesta Humphreys (gwraig Eilian Davies) merch Enoch Thomas (Curad).*

## CANLYNIADAU 'STEDDFOD EGLWYS SANT PERIS A SANT PADARN

**Canu dan 5 oed:** 1. Colin Ellis, 2. Aneurin Foulkes, 3. Phillipe Bourne. **Dan 6:** 1. Llinos Haf Jones, 2. Dylan Williams ac Elwyn Foulkes, 3. Gerallt Williams a Shane Price, 4. Stephen Edwards. **6 oed:** 1. Llifon Foulkes, 2. Kevin Edwards, 3. Nia Roberts a Mark Bourne. **8-10 oed:** 1. Cheryl Edwards a Ceri Lynne Parry, 2. Arwel Jones, 3. Nia Williams. **10-12 oed:** 1. Alison Edwards, 2. Catrin Lennon. **12-14:** 1. Fiona Jones. **Dan 16 oed:** 1. Catrin Lennon a Fiona Jones. **Dan 18 oed:** 1. Rhian Owen. **Cân Werin:** 1. Rhian Owen, 2. Catrin Lennon. **Unawd Piano 10-12 oed:** 1. Catrin Lennon, 2. Alison Edwards. **12-14 oed:** 1. Jennifer Ellis. **Chwarae Emyn Dôn:** 1. Jennifer Ellis. **Adrodd. Dan 5 oed:** 1. Colin Ellis, 2. Phillipe Bourne, 3. Aneurin Foulkes. **Dan 6 oed:** 1. Gerallt Williams, 2. Elwyn Foulkes a Shane Price, 3. Llinos Haf Jones a Dylan Williams, 4. Stephen Edwards. **6 oed:** 1. Kevin Edwards, 2. Nia Roberts a Llifon Foulkes, 3. Mark Bourne. **8-10 oed:** 1.Cheryl Edwards a Ceri Lynne Parry, 2. Arwel Jones. **10-12 oed:** 1. Catrin Lennon, 2. Alison Edwards. **12-14 oed:** 1. Fiona Jones. **Cyd-adrodd 10-12 oed:** 1. Parti Cheryl. **Darllen o'r Beibl:** 1. Bethan Jones, 2. Fiona Jones ac Ian Edwards, 3. Jennifer Ellis a Catrin Lennon. **Modulator: 2½ oed:** Aneurin Foulkes. **5 oed:** 1. Stephen Edwards, 2. Elwyn Foulkes, 3. Llinos Haf Jones ac Olwen Harris. **6 oed:** 1. Kevin Edwards, 2. Llifon Foulkes, 3. Nia Roberts a Shane Price. **7 oed:** 1. David Ellis, 2. Mark Jones. **9 oed:** 1. Cheryl Edwards ac Arwel Jones, 2. Ceri Lynne Parry a Nia Williams, 3. John Douglas Ellis. **10 oed:** 1. Alison Edwards ac Ian Williams, 2. Darren Price, 3. Tony Jones a Dewi Harris. **11 oed:** 1. Catrin Lennon. **12 oed:** 1. Jennifer Ellis, 2. Ian Edwards a Hugh Harris. **Arholiadau Llafar. Dan 5 oed:** 1. Elwyn Foulkes, 2. Colin Ellis, 3. Aneurin Foulkes. **5-6 oed:** 1. Llinos Haf Jones, 2. Louise Ellis, 3. Olwen Harris, 4. Stephen Edwards, 5. Shane Price. **6-8 oed:** 1. Llifon Foulkes, 2. Kevin Edwards, 3. Nia Roberts, 4. David Ellis, 5. Mark Jones. **8-10 oed:** 1. Ceri Lynne Parry, 2. Cheryl Edwards, 3. Robert A. Jones, 4. John Douglas Ellis, 5. Nia Williams, 6. Arwel Jones. **10-12 oed:** 1. Alison Edwards, 2. Dewi Harris, 3. Catrin Lennon, 4. Ian Williams, 5. Darren Price. **12-14 oed:** 1. Ian Edwards, 2. Jennifer Ellis, 3. Hugh Harris.

## APÊL AT GYN-GYSTADLEUWYR EISTEDDFOD'YR URDD

"Amcangyfrifwn fod ar draws 330,000 o bobl ar hyd a lled Cymru wedi cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ers ei chychwyn ym 1929. Mae'n ofid i ni nad oes gennym gysylltiad uniongyrchol â nhw ac fe'u gwahoddaf i anfon eu henwau a'u cyfeiriad ynghyd â'r flwyddyn neu flynyddoedd y buont yn cystadlu atom i Swyddfa'r Urdd" meddai Ifan Prys Edwards, Cadeirydd Cyngor Urdd Gobaith Cymru, wrth annerch Clwb y Bont, Pwllheli.

"Byddwn yn cadw rhestr fanwl o'r enwau gan anelu at gysylltu â'r cyn-gystadleuwyr yn flynyddol a'u hysbysu o'r hyn a wnaeth y mudiad yn ystod y flwyddyn ac o gynlluniau'r dyfodol.

"Yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Mhwllheli ym 1982 y byddwn yn lansio'r cynllun cynhyrfus, 'Urdd 2000', a gobeithiwn y medr miloedd ar filoedd o gyn-aelodau'r Urdd fod yn gefn i ni gyda'r holl weithgarwch cyfoes, diddorol a gychwynnir ym 1982 pan fydd mudiad yr Urdd yn 60 oed.

"Anfonwch eich enwau at Y Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth."

Enillwyd y gwpan am y gwaith gorau yn yr Arholiadau Llafar gan Alison Edwards. Aeth y gwpan am y marciau uchaf yn yr Eisteddfod i Catrin Lennon ac aeth y Fedal i Jennifer Ellis a ddaeth yn ail. Hefyd fe rannwyd medalau wedi eu gwneud yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod gan Mr Bourne, Mur Mawr, i rai o'r goreuon yn y cystadleuthau.

## CYMDEITHAS GWNEUTHURWYR GWIN A CHWRW BRON AR EI THRAED

**Yn ôl dau gyfarfod sydd wedi eu cynnal yn ddiweddar mae'n debyg y bydd Cymdeithas Gwneuthurwyr Gwin a Chwrw yn cael ei ffurfio yn Llanrug yn y dyfodol agos.**

**Syniad Mr R. Jones, 5 Tal-y-bont, Llanrug yw'r Gymdeithas ac afraid dweud ei fod ef ei hun yn wneuthurwr gwin brwd.**

**Mae Mr Jones yn adnabod nifer o bobl yn y gymdogaeth sy'n ymddiddori yn yr hobi, a gwêl, fel un o amcanion y gymdeithas, y cyfle i gyfnewid ryseitiau a syniadau ynglŷn â chynhyrchu gwin a chwrw.**

**Hoffai hefyd weld y gymdeithas yn gallu cynnal arddangosfa yn ystod Gŵyl Caernarfon yr haf nesa'.**

**Bwriad Mr Jones, sy' wedi bod yn dilyn ei hobi ers dros flwyddyn bellach, yw gallu canolbwyntio ar wneud gwinoedd o ffrwythau a llysiau 'naturiol'. Yn barod mae wedi gwneud gwinoedd eirin tagu, mwyar duon, ysgaw, riwbob, blodau'r eithin, egroes a cwins llwyddiannus iawn ac mae ganddo rai ryseitiau diddorol nad yw eto wedi eu cynnig.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14 Ionawr. Os oes diddordeb gan unrhyw un cysyllter â Mr R. Jones, 5 Tal-y-bont, Llanrug, Ffôn: Caernarfon 4838.**


CARPEDI **ALUN GLYNJONES** LLENNI


**(Wetton a Thomas)**

**14, Ffordd Garth, BANGOR Ffôn 53705**

**(gyferbyn â'r orsaf fysiau)**

**Gostyngiad sylweddol am arian parod**

**Gosodir pob carped am ddim**





**Dibynnwch ar ansawdd lle bo ansawdd yn cyfrif**

# AM Y CYNTAF I GYHOEDDI'R 'ECO'

100. O'r wasg mewn pryd !

92 | 93 | 94 Helpu i dynnu lluniau : Ymlaen 3. | 96 | 97 | 98 Cwsmer yn gwrthod prynu: Yn ol i 80.

91 Anghofio dosbarthu ar amser : Yn ôl 6. | 89 | 88 Dod i gyfarfod blynyddol yr 'Eco' : Ymlaen 2. | 86 | 85 | 84

76 | 77 Ennill mewn steddfod : hanes yn yr 'Eco' Ymlaen 3. | 79 | 80 | 81 Talu am hysbys. yn y papur : Ymlaen 4. | 83

Colli lluniau ar gyfer y papur Yn ôl 5. | 74 | 73 Peiriant yn torri yn y Wasg; - colli twrn. | 71 | 70 Cyrraedd mewn pryd i blygu'r 'Eco' : Ymlaen 4.

61 | 62 Dyfrin y Dewin yn chwarae tric arnoch : Yn ôl 4 | 64 Cynnig helpu i blygu'r 'Eco': Ymlaen 2 | 66 | 67 | 68

Draenog yn eich dal ! Yn ôl 10. | 59 | 58 Peidio anfon newyddion mewn pryd i'r Golygydd : yn ôl 4. | 56 | 55 Draenog ar eich trywydd: brysio ymlaen 6.

46 | 47 Sgwennu erthygl i'r 'Eco' : Ymlaen 5. | 49 | 50 Peidio talu am yr 'Eco' mewn pryd : Yn ôl 5. | 52 | 53

Cynnig eich hun yn ddosbarthwr pentref : Ymlaen 2. | 44 | 43 Draenog yn cael eich hanes : Yn ôl 4 | 41 | 40 | 39 | 38

30 | 31 Llythyr i'r Golygydd wedi mynd ar goll : Yn ôl 3. | 33 | 34 Sgŵp i'r ddalen flaen : Ymlaen 6. | 36 | 37

Anhofio rhoi stamp ar amlen Yn ôl 2. | 28 | 27 Angen Trefnydd Cymdeithasol ar yr 'Eco'. Anfonwch eich enw i un o'r Golygyddion : Ymlaen 10. | 25 | 24

16 | 17 | 18 | 19 Ennill gwobr Dyfrin y Dewin Ymlaen 4. | 21 | 22 Anghofio datblygu ffilm yn y camera : Yn ôl 4.

15 | 14 Yn y lle iawn ar yr adeg iawn i dynnu llun : Ymlaen 5. | 12 | 11 | 10 | 9 Teipiadur yn torri : Yn ôl 2.

CYCHWYN | 1 | 2 | 3 Cael hanes stori dda : Ymlaen 3. | 5 | 6 | 7


## SUT I CHWARAE'R GÊM

Mae angen dis (dice) a chowntyr ar bob chwaraewr.
Ei chwarae'n yr un dull â 'Snakes and Ladders' gan ddilyn y cyfarwyddiadau yn y sgwariau.
Gall dau neu fwy chwarae.

MWY O BOSAU YN Y DDALEN GEFN

# NADOLIG GYDA DYFRIN Y DEWIN

# CYSTADLEUAETH




**Atebwch y cwestiynau i ddarganfod ym mha golofn i lawr y mae neges wedi ei guddio.**

1. Llwyni o flodau melyn a ddefnyddid i wneud ysgubau.
2. Cartref yr Eisteddfod ym 1981.
3. Un o farchogion Arthur.
4. Mam nawdd-sant Cymru.
5. Gwlad yn Ne America a enwyd ar ôl gwrthryfelwr.
6. "Papur bro Cymru gyfan" yn ôl yr honiad.
7. Un sy'n gofalu am ddefaid.
8. Pren a ddefnyddid yn yr hen amser i lanhau dannedd.
9. Adar sy'n crogi yn ôl traddodiad.
10. Pont dros afon Seiont.
11. Prifddinas yr Alban.
12. Ffrwyth melyn, hir.
13. Hylif tew, tywyll a ddefnyddir i wneud taffi.
14. Pentref yn Eryri â chysylltiad â chi enwog.
15. Adar i'w clywed "o Lwyncoed, Cwm-y-glo".
16. Gwlad y fjord.
17. Roedd rhai cochion o Fawddwy.
18. Pryd cynta'r dydd.
19. Arsenic a'i debyg.
20. Llyn uwch pentref Trefriw.
21. Planhigion di-groeso mewn gardd.
22. Cynhelir un anferth yn Rio.
23. Rhoir hwn am ben ceffyl.
24. Lle mae coed ffrwythau'n tyfu.
25. Roedd meillion yn tyfu'n ôl troed hon.
26. Cymeriad hoff gan blant yr adeg hon o'r flwyddyn.
27. Hen gaer yn ardal yr 'Eco'.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**


**OSMOND W. SHAW**

**Peiriannydd Radio a Theledu & Gwasanaeth Awdio**

BWLCH UCHAF


**DEINIOLEN**

*Ffôn Llanberis 545*

*Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch*

**CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH**

**MODURDY MENAI**



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
**Ffôn : Portdinorwic 670882**

**Perchennog : J. Evans**

# GWYLIO'R SÊR

Heb unrhyw amheuaeth yr adeg orau i ddechrau gwylio'r sêr yw'r gaeaf. Un rheswm, wrth gwrs, yw'r nosweithiau hirion a geir yn y gaeaf. Rheswm arall yw mai dyma'r adeg y ceir gweld rhai o'r cytser mwyaf diddorol. Mae'r goleuadau oren a geir erbyn hyn ar hyd a lled y fro yn gymorth aruthrol i deithwyr o bob math, ond i'r seryddwr maent yn bla. Os ydych am weld gwyrthiau'r ffurfafen ar eu gorau gwnewch yn siŵr eich bod mor bell ag sy'n bosibl o'r goleuadau oren, ac yn wir, unrhyw oleuadau artiffisial eraill. Hefyd wrth gwrs, yn ein hardal ni, mae'r mynyddoedd yn cau allan darnau helaeth o'r awyr o'n golwg.

Er gwaethaf y problemau hyn, mae gwylio'r sêr yn gallu rhoi oriau o fwynhâd a diddorddeb i bawb, a phwrpas y nodiadau hyn, fydd i adael i chwi wybod beth sydd i'w weld o fis i fis. Ychydig iawn ohonom sydd yn gallu edrych i fyny ar noson glir, ddileuad heb gael ein gwefreiddio gan harddwch a mawredd y nefoedd. Ond yn anffodus, ychydig iawn o bobl sydd yn gwybod yn union beth sydd o diddordeb. Yn y misoedd i ddod cawn drafod rhai o'r cytser (grwpiau o sêr) mwyaf diddorol sydd i'w gweld yr adeg yma o'r flwyddyn. Am y tro, beth bynnag, mae'n well i ni gael ychydig o nodiadau cyffredinol fel cefndir i'r hyn a ddaw yn ystod y misoedd nesaf.

Rhaid cofio yn gyntaf mai seren yw'n haul ni – seren gyffredin sydd yn digwydd bod yn nes atom na'r sêr eraill. Mae'r haul tua 93,000,000 o filltiroedd i ffwrdd o'r ddaear – pellter sydd ddim mor faith o'i gymharu â'r pellteroedd rhwng yr haul â sêr eraill. Mae seryddwyr yn galw'r pellter rhwng yr haul a'r ddaear yn "uned seryddol". h.y. 1 uned seryddol = 93,000,000 milltir. Am ei fod mor agos i'r ddaear mae'r haul yn gallu rhoi gwres a goleuni i ni. Yr enw a roddir ar wyneb disglair yr haul yw'r "photosphere", gyda thymheredd o tua 6,000°C. Mae tymheredd perfeddion yr haul yn agos i 15,000,000°.

'Rydym ni heddiw, yn gwybod bod ein planed ni yn un aelod o deulu o naw o blanedau sydd i gyd yn cylchdroi o gwmpas un seren, sef yr haul. 'Roedd rhai seryddwyr hanesyddol megis Aristarchus o Samos, oedd yn byw rhwng y blynyddoedd 310 a 230 cyn Crist, yn credu mai'r ddaear oedd yn cylchdroi o gwmpas yr haul, ac nid yr haul o gwmpas y ddaear, ond 'roedd yna nifer o seryddwyr eraill ar y pryd oedd yn gwrthod derbyn ei syniadau. Yn wir, 'roedd rhaid disgwyl wedyn tan y 16eg a'r 17eg ganrif, a gwaith seryddwyr fel Copernicus, Kepler a Galileo, cyn i bobl ddechrau derbyn yr hyn a ddywedodd Aristarchus yn agos i 2000 o flynyddoedd ynghynt, sef mai planed gyffredin iawn oedd y ddaear, yn cylchdroi o amgylch seren gyffredin iawn – yr haul.

Nid oes unrhyw olau gan y planedau. Yn hytrach maent yn adlewyrchu goleuni'r haul, Mae gan bob planed ei llwybr, neu orbid arbennig o gwmpas yr haul. Mae'r ddaear yn cymryd $365\frac{1}{2}$ diwrnod i fynd unwaith o amgylch yr haul ar ei horbid – h.y. un flwyddyn. Fel y gwyddoch pob pedair blynedd cawn flwyddyn naid, sef blwyddyn â 366 diwrnod ynddi. Mae'r diwrnod ychwanegol yn dod trwy adio'r $\frac{1}{4}$ diwrnod sydd dros ben bob blwyddyn am bedair blynedd i wneud un diwrnod cyfan.

Wrth gwrs mae 'blwyddyn' y planedau eraill yn wahanol iawn e.e. 88 diwrnod ar y blaned Mercher; neu 248 blwyddyn ddaearol ar y blaned Pluto (Amser hir iawn i ddisgwyl am eich anrhegion pen-blwydd!!)

O'u cymharu â'r sêr, mae'r planedau i gyd yn weddol agos atom ni ar y ddaear. Er enghraifft nid oes ond 25,000,000 milltir rhwng y blaned Gwener â'r Ddaear. Oherwydd hyn mae rhai o'r planedau hyn, fel Gwener, Mawrth neu Iau yn ymddangos yn ddisglair iawn i'n llygaid ni yn y nos, ond peidiwch â chael eich twyllo! Maent yn ddisglair am eu bod mor agos atom. Er enghraifft mae'r blaned Mawrth yn disgleirio'n fwy llachar weithiau na Seren y Ci (Sirius), sef y seren ddigleiriaf yn y nefoedd i'n llygaid ni. Ond planed fechan yw Mawrth, tua hanner maint y ddaear, tra mae Seren y Ci yn haul disglair iawn, tua 26 gwaith ddisgleiriach na'n haul ninnau!! Ond mae Mawrth, wrth gwrs, mor agos atom o'i gymharu â Seren y Ci.

Wrth gwrs i ninnau ar y ddaear y lleuad yw'r corff nefol mwyaf disglair, ond aelod bach dibwys iawn o gyfundrefn yr Haul yw'r Lleuad. Mae'r Lleuad yn mesur tua 2,160 milltir mewn diamedr, a'i phellter o'r ddaear yw tua 239,000 milltir. Nid oes gan y lleuad oleuni. Yn hytrach mae'n gweithredu fel drych, a'r hyn a welwch yn y nos yw goleuni'r haul yn taro'r lleuad ac yn cael ei adlewyrchu i lawr i'n llygaid ni ar y ddaear. Peidiwch â meddwl am eiliad fod ein lleuad, neu'n lloeren ninnau yn unigryw. Mae gan Mawrth ddwy leuad, Iau 12 lleuad; Sadwrn 15 leuad; Uranus 5 lleuad; a Neifion 2 leuad. Yn wir lleuad yw'r enw a roir ar unrhyw loeren naturiol sydd yn cylchdroi o amgylch unrhyw blaned, a phlaned yw'r term a roir ar unrhyw gorff nefol sydd yn troelli o gwmpas seren. Ystyr gwreiddiol y gair 'planed' yw 'crwydryn nefol', enw addas iawn wrth gwrs oherwydd mae'r planedau yn symud o amgylch yr haul – ffaith sydd yn ein galluogi i'w hadanbod yn erbyn cefndir y sêr.






## LLYFRAU NEWYDD

Mae'r canlynol wedi cyrraedd eich llyfrgelloedd:

**Atgofion o Batagonia** – Ffrwyth cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978 gan bobl a anwyd ac a fagwyd yn y Wladfa.

**Bwyd y Sêr** – Cyfrol o rysetau gan 22 o enwogion Cymru o'u hoff fwydydd.

**Yn nwylo'r Nippon** – Frank Evans. Atgofion gŵr ifanc o sir Aberteifi am garcharau rhyfel yn y Dwyrain Pell yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

**Fi yw hwn.** W.R. Evans – Hunangofiant un o gymeriadau enwocaf Cymru.

**The Hymns of Ann Griffiths.** – Hanes yr emynyddes yn ogystal â'i hemynau, yn Gymraeg a Saesneg, ynghyd â nodiadau.

**Capeli Cymru** – Penri Jones. Disgrifiad o dros gant o gapeli gwahanol enwadau ym mhob rhan o Gymru.

**Esgid yn Gwasgu** – Robyn Lewis. Cyfrol arobryn y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Dyffryn Lliw eleni. Pedair stori ar y thema 'caethiwed' ydynt.

**Cerddi Talfryn.** Iorwerth Lloyd. Cyfrol o farddoniaeth, – cynnyrch 'ugain mlynedd o'm difyrru fy hun gyda'r awen', yn ôl yr awdur.

**Enfys y Bore** – Marged Pritchard. Nofel am ferch fabwysiedig yn ei harddegau sy'n gwrthryfela ac yn teimlo nad yw'n perthyn i neb na dim.

**Mis o Fehefin.** Eigra Lewis Roberts. Nofel am drigolion un stryd a'u helyntion hwy yn ystod un mis Mehefin.

**Wrth Ymdaith.** – Dewi W. Thomas. Disgrifiad o daith gerdded o Gaerfyrddin i Aberystwyth ar hyd yr hen reilffordd, ynghyd â hanes pethau a phobl a welir ar y daith.

**Derek Walcott – bardd yr Ynysoedd.** Ned Thomas.

## RASUS CYMYLAU

Dyna enw'r pantomeim a gyflwynir gan Theatr Cymru eleni. Cynhelir perfformiadau'r cwmni yn Theatr Gwynedd rhwng Rhagfyr 22 a Ionawr 10. Rasio a gwibio i bob cyfeiriad mewn ras anturus, helbulus i ddod o hyd i grochan aur Mrs Enfys wna'r cymeriadau – cymeriadau da a drwg sydd wedi eu seilio ar elfennau'r tywydd.

Ysgrifennwyd y stori gan Cefin Roberts, yr actor o Fangor, a fydd hefyd yn ymddangos fel y prif gymeriad, John Dwy Geiniog.

Awgrymodd llefarydd ar ran y cwmni i bawb archebu eu tocynnau mewn da o bryd rhag cael eu siomi. Mae 'Rasus Cymylau' yn llawn o'r hwyl sy'n gysylltiedig â phantomeim ond mae hefyd yn cynnwys llawer o bethau hollol gyfoes eu naws.

# AR LWYBR NATUR

gan Leselie Larsen

"Nid yw y Morgrug yn Bobol nerthol . . .'

Ar yr ochr ddwyreiniol o Lyn Padarn saif un o'n coedwigoedd hynotaf. Coedwig naturiol yw hi, yn lloches i nifer o adar a blodau diddorol a phrin. I'r ymwelydd y peth amlycaf yno heblaw'r coed yw nythod morgrug y coed (y mwyaf o forgrug Cymru). O edrych yn weddol fanwl gwelir y twmpathau hyn yn britho llawr y wig.

Yr amser hyn o'r flwyddyn edrycha'r nythod yn dawel a digyffro, a phrin y gellid credu bod 100,000 o forgrug yn bwrw'r gaeaf yn mherfeddion y nyth. 'Chyfrais i mo'r morgrug ond mae arbenigwyr yn dweud wrthym bod dros 100,000 o 'ddinasyddion' ym mhob nyth aeddfed. Gweithwyr yw'r rhan fwyaf o'r rhain gyda thua 200 yn fenywod a gwrywod.

Petaech yn mynd at yr un nyth ar ddiwrnod heulog a chynnes buasech yn gweld y lle yn fwrlwm o weithgarwch gyda deiliaid y nyth yn rhuthro yma a thraw yn cludo brigau bach neu chwilennod. Cred amryw mai wyau yw'r pethau bach gwyn y bydd y morgrug yn eu symud o gwmpas ond chwilennod ydynt ('pupae' yn Saesneg).

Mae'r nyth yn lle cymhleth iawn; y rhan a welwn ar yr wyneb yw'r to sydd i gadw glaw ac oerni draw yn union fel to gwellt ar dŷ. O dan y to y mae pwll o ddail, a phridd a llwydni a dyma'r lle sy'n cynhyrchu cynhesrwydd at ofynion y ddinas. Yn is na hyn wedyn ceir sianelau lle mae morgrug y coed yn swatio'n gynnes am y gaeaf. Gwnânt hyn mewn clystyrrau o ychydig filoedd o amgylch dwy neu dair brenhines.

Pan fo'n hindda deuant allan o'u nyth a chrwydro o gwmpas eu libart neu diriogaeth sydd yn cynnwys tir o gwmpas y nyth. O dan eu gofal y mae buches o wartheg y morgrug (y pryfetach bach gwyrdd neu ddu sy'n niweidio blagur tyner ar blanhigion). Mae'r pryfetach bach hyn yn gor-lenwi eu hunain â sudd melys o blanhigion, yna gyda'u teimlyrau mae'r morgrug yn denu'r sudd o'u gwartheg a'i ddefnyddio fel bwyd.

Fel mae'n hysbys i bawb y mae gan wenyn storfa o fwyd yn eu cychod, sef y mêl wedi ei gadw mewn diliau. Nid felly morgrug eithr bendithiwyd pob gweithwir â dau stumog; un yn eiddo iddo ef ei hun, a'r llall ar gyfer deiliaid y nyth. Os daw morgrugyn newynog i gwrdd â morgrugyn gyda bwyd yn ei stumog cymdeithasol yna mae'n rhaid iddo drosglwyddo peth o gynnwys ei gylla i'r newynog. (Comiwnyddiaeth ym myd Natur?)

Dau elyn sydd gan forgrug y coed: yr un arferol, sef dyn, a chnocell y coed, sydd weithiau i'w weld gyda'i dafod hir gludiog yn eu llyfu o'r nyth gan anwybyddu'r asid fformig y byddant yn ei chwistrellu i amddiffyn y ddinas. Bu casglu mawr ar y chwilennod o'r nythod i'w gwerthu fel 'wyau morgrug' i fod yn fwyd i bysgod.

Yn anffodus lleihau mae'r morgrug hyn drwy wledydd Prydain er bod coedwigwyr yn eu cynnwys nhw am eu bod yn difa llawer o bryfed niweidiol i goed.

# GOFALU AM BLANT (II)

## PROBLEM

Yn y rhifyn diwethaf cyfeiriais yn fras at y ddau fodd y gellid derbyn plant i ofal Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor Sir.

**Sut broses yw hi?** Yn naturiol, mae'r broses wirfoddol yn llai trawmatig na'r hyn a ddigwydd oherwydd gorchymyn llys – ond yn y ddau achlysur buan y gwelir fod poen a thristwch yn rhan annatod o'r broses; wedi'r cwbl 'Gwyn y gwêl y frân ei chyw', does neb yn caru meddwl iddynt fethu!

Pan dderbynnir cais i dderbyn plentyn i ofal, cyfrifoldeb cyntaf y gweithiwr cymdeithasol yw archwilio'r posibilrwydd o osgoi hynny. Sawl carreg sydd heb ei throi? A yw'n bosibl rhoddi cymorth ymarferol i sicrhau fod y plentyn yn gallu aros yng ngofal ei rieni? Chwilio am rwydwaith cynhaliol fydd yn ddigonol i'r teulu am gyfnod byr neu hir.

Datblygwyd adnoddau diddorol, yn enwedig yn y trefi, i ymgyrraedd at hyn – creu unedau meithrin dyddiol, canolfannau teuluol, gofalwyr plant yn ennill cyflog ac yn y blaen. Datblygodd ysbytai'r meddwl unedau i'r fam a'r plant, i sicrhau nad oedd rhaid eu gwahanu oherwydd iselder y fam, yn dilyn genedigaeth.

Gwelwyd hefyd, fod gwaith arbedol cynnar gyda rhai teuluoedd, yn holl bwysig i leihau yr angen am ofal. Cofiwch, nid gwaith hawdd yw hyn o gwbl, ac yn rhy aml rhaid i'r gweithwyr cymdeithasol nofio yn erbyn y llanw cryf. Diwedd y gân yn rhy aml, yw derbyn y plentyn i ofal, a'r cyfrifoldeb wedyn yw sicrhau y gofal gorau i'r plentyn, a fydd cyn belled ag sydd bosibl yn adlewyrchu ei angen a'i ddyhead.

Dyletswydd y gweithiwr cymdeithasol yw sicrhau nad yw'r plentyn yn dioddef oherwydd y gwahaniad, pan fo'i holl fyd yn syrthio yn ddarnau o'i gwmpas, gorchwyl sobr o anodd.

Meddyliwch am funud, beth fuasai adwaith plant rhai ohonoch chwi, pe dygasid hwy o'u haelwyd a'u cynefin, i ddwylo dieithriaid. Dieithriaid sydd am eu cofleidio a'u caru, ond dieithriaid serch hynny, wynebau dieithr, lleisiau newydd, llefydd newydd.

Dyma ddechrau'r broses o gamu i fyd cwbl newydd, ac os oedd unrhyw ansicrwydd yn bodoli gynt oherwydd amgylchiadau aelwyd, yn sicr mae'n ganwaith gwaeth yn awr. Pwy a all eu beio os oes gwlychu ar y gwely o bryd i'w gilydd neu waethygiad yn eu hymddygiad yn yr ysgol?

Dychmygwch y sefyllfa os gallwch.

# TAN Y COED

Y NADOLIG – Pnawn Sul cyn y Nadolig – Rhagfyr 21 cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Festri Tan-y-Coed, a'r pnawn Llun dilynol, Rhagfyr 22 bydd y plant yn cael eu Parti Nadolig blynyddol.

PREGETHWR LLEOL – Llanwyd pulpud Tan-y-Coed ddydd Sul, Rhagfyr 7 gan un o fechgyn ieuanc yr ardal, Mr Bryn Williams BA Tanygaer. Ymunodd aelodau Pontrhythallt â Than-y-Coed yn yr hwyr. Cafwyd cynulliad da yn y ddau gyfarfod. Estynnwyd croeso cynnes i Mr Williams a'i longyfarch ar achlysur ei briodas, a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol. Y mae Mr Williams eisoes wedi cael gyrfa lwyddiannus fel myfyriwr ac fel pregethwr. Amheuthun oedd cael neges mor gadarn ganddo yn oedfaon y Sul, cenadwri gadarn gan fachgen ieuanc.

GWYLIAU HAPUS i Mrs E. Ellis, 3 Tai Bryngwyn a aeth i aros gyda'i mab, Mr Tom Ellis, i gylch Nottingham dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

TREFNIADAU'R ŴYL – Ymysg aelodau Merched y Wawr, Llanrug gafodd Noson Lawen yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis (gweler yr hanes dan Llanrug) yr oedd nifer o ardal Tan-y-Coed, a nos Iau, Rhagfyr 10 bydd rhai ohonynt yn wahoddedigion i'r Cinio Nadolig a drefnir i bensiynwyr yn Ysgol Gynradd Llanrug gan Bwyllgor y Carnifal. Pnawn Gwener, Rhagfyr 11 yng nghapel Hermon bydd trefniant arall ar eu cyfer hwy a holl bensiynwyr yr ardal sef pnawn o ganu carolau a phaned o de. Dyledus iawn yw'r ardal i drefnwyr yr amrywiol ddigwyddiadau cymdeithasol a gynigir iddi o dro i dro, yn enwedig yr adeg yma o'r flwyddyn. Diolch am gymdogaeth dda a chyfeillgarwch bro.




NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr yr ECO

BRYSIWCH I GAEL EICH

**Teganau**

YN SIOP

**E.WILSON HUGHES**

**84 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
FFÔN 491





Beth glywir o
**LWYNCOED**
**CWM-Y-GLO?**
Ffôn: Llanberis 563

Na, nid tylluanod ond. . .

Dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb ym musnes llefrith

**EIRWYN A SYLVIA WILLIAMS**

i gwsmeriaid hen a newydd.

Diolch am eich cefnogaeth gydol 1980

Dymuna

## SAM A MARGARET JONES
## CEFN FARM
# LLANDDEINIOLEN

*Ffôn: Y FELINHELI 670282*

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'u cwsmeriaid a'u ffrindiau.**

*Diolch am eich cefnogaeth drwy gydol 1980*
*Pleser fydd eich gwasanaethu eto ym 1981*
*â Llefrith, Hufen, Wyau a Thatws.*



# CYFARCHION
# BETHEL

CYFARCHION Y TYMOR
a
DYMUNIADAU GORAU AM 1981
oddi wrth

# WILL a VAL GUY
## DONNA A SHEILA
# TREFLYN STORES
# BETHEL

Bwydydd, Melysion, Teganau a Diodydd ar gyfer y Nadolig
Y FELINHELI 670 237

Cwestiwn
Be di'r ffordd orau o symud llwyth o Lanbêr i Landudno, o Ddeiniolen i Dundee ac o Fethel i Fanceinion?

Ateb

# OWENS TRANSPORT
H.F. OWEN, BRON MEILLION
## BETHEL


*Ffôn: Y Felinheli 670487*

*Fe gariwn ni rywbeth i rywle (bron!)*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

## NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL
## ODDI WRTH BAWB YN
# GAREJ MINFFORDD
# BETHEL

**(T.R. & S. EVANS)**
**Ffôn: Y Felinheli**
**670451**



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll
oddi wrth

*GWILYM A MEIRWEN JONES*


**SWYDDFA'R POST**

**BETHEL**

Ffôn: Y Felinheli 670 261

BWYDYDD. MELYSION. PAPURAU NEWYDD

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth



BILL ac EILEEN GRIFFITHS
**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**
*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU
*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

**TAFARN GORS BACH**

**LLANDDEINIOLEN**

Dymuna
Bob, Mair a'r staff
i'w holl gyfeillion a chwsmeriaid,
hen a newydd



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD RAGOROL

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**M. WILLIAMS**
**BRYN DAIRY**
**TŶ'R YSGOL**
**BETHEL**
*Ffôn: Y FELINHELI 670417*



# BETHEL

LLONGYFARCHIADAU – i Miss Ann Evans, Blaen Parc ar ei llwyddiant yn ei harholiadau S.E.N. yn ddiweddar. Rydym yn falch o glywed hefyd ei bod wedi gwella ar ôl ei gwaeledd diweddar.

CAPEL CYSEGR – Cafwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn yn Festri'r Cysegr gyda'r elw o £80 yn mynd at y gwaith atgyweirio ar y Coleg Diwynyddol yn Aberystwyth. Diolch i'r merched am eu gwaith ac i bawb am eu cefnogaeth.

YR EISTEDDFOD – Bellach mae testunau'r Eisteddfod ar gael ac wedi eu dosbarthu yn y pentref. Cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd ar Chwefror 14 a bydd y rhan fwyaf o'r cystadleuthau yn gyfyngedig i Bethel, Llanddeiniolen a Seion. Mae dau gôr eisoes wedi eu ffurfio a gobeithio y bydd yr Eisteddfod yn cychwyn llawer o weithgarwch yn ystod wythnosau cyntaf 1981.

YR URDD – Cafwyd mis prysur iawn yn yr Urdd gyda Slim o'r Awr Fawr yn diddori'r oedolion ar 28 Tachwedd. Roedd edrych ymlaen garw at weld a chlywed Slim ac roedd pawb wrth eu bodd yn ceisio dyfalu sut oedd yn gwneud y triciau a hefyd yn cael ei lofnod.

Rhagfyr 5 cafwyd noson o Ddisgo gyda Mr Elfed Roberts, Swyddog Datblygu yr Urdd yn Eryri. Roedd pawb yn mwynhau ei hunain yn neidio a dawnsio i sŵn recordiau diweddaraf Edward H., Bando a Geraint Jarman.

Nos Wener, Rhagfyr 12 gorffennwyd hanner cyntaf y tymor gyda Noson Goffi. Gwnaed elw o £66 a fydd yn cael ei ddefnyddio i dalu am fws i fynd â'r aelodau i'r Pantomeim yn Ionawr. Dymuna arweinwyr yr Urdd ddiolch i'r plant i gyd am eu gwaith yn trefnu ar gyfer y noson a hefyd yn helpu i rannu'r coffi.

Mr Idris Jones, Tyddyn Oer enillodd y bocs siocled am ddyfalu faint o bys oedd yn y botel. Mrs Ceri Williams, Tan y Cae enillodd y raffl am focs o ffrwythau ac Irfon Price, Tan y Ffordd enillodd y tun bisgedi. Rhif 6 oedd y rhif lwcus yn raffl y Bocs Ffrwythau ond doedd y person lwcus ddim yn y Neuadd pan dynnwyd y raffl.

THEATR BARA CAWS – Nos Fercher Ionawr 21 bydd Theatr Bara Caws yn cyflwyno eu pantomeim 'Bynsan Binc' yn y Neuadd. Trefnwyd yr ymweliad gan gangen Bethel o Ferched y Wawr.

CLWB Y RHOS – Nos Fercher, Rhagfyr 10 roedd y noson yng Nghlwb y Rhos dan ofal Mr Dafydd Williams, Hafod. Roedd Dafydd wedi trefnu i Mr Emyr Jones ddod draw i roi sgwrs ar hanes Chwarel Dinorwig. Cafwyd noson ddifyr a hwyliog iawn a diolchwyd i Mr Jones gan Ieuan Williams, Llain yr Ardd.

SIÔN CORN – Mae Siôn Corn yn siŵr o fod yn gwybod ei ffordd o amgylch Bethel erbyn hyn. Nos Fercher Rhagfyr 10 bu o gwmpas y pentref gyda'r Ford Gron o Gaernarfon a'r wythnos yma bu yn nhe parti Ysgol Sul y Cysegr ac yn nhe parti'r Ysgol Feithrin, bu o gwmpas y pentref hefyd gyda'r Ysgol Feithrin. Gobeithio fod y plant i gyd wedi dweud wrtho pa anrheg yr hoffent ei gael ar fore'r Nadolig ac y bydd yntau'n cofio yn iawn.

# NANT PERIS

LLWYDDIANT – Llongyfarchiadau i Llinos Haf o 10 Glanrafon a Jennifer, John a David, Hafan ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Eglwys St Peris a St Padarn. Cafodd Llinos wobr 1af am ganu ac arholiad llafar a 3ydd am adrodd a modulator. Hefyd derbyniodd addurn gwddf crochenwaith o waith Mr Bourne, Llanberis. 'Roedd pob enillydd gwobr gyntaf ym mhob oed yn cael un. Cafodd David a Jennifer 1af ar y modulator a John 3ydd. Jennifer 1af am chwarae emyn-dôn a 1af am unawd piano, ac ennill y fedal arian am fod yn ail gyda'r mwyaf o farciau yn yr Eisteddfod. Mae'n galondid gweld bod rhai o hyd yn gwerthfawrogi'r cyfle feithrin y ddawn o sefyll o flaen cynulleidfa. Daliwch ati.

PROFEDIGAETH – Cydymdeimlir â Tony a Helen Adams a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Tad a Thaid annwyl. Bu farw tad Tony yn Llundain yn ddiweddar.

Y PLYGAIN – Fe gynhelir gwasanaeth y Plygain yn Eglwys St Peris nos Nadolig. Croeso i bawb.

PREGETH – Y pregethwr gwadd yn Rehoboth, Ionawr 7 fydd y Parch J.S. Roberts, Llanfairpwll. Mae Mr. Roberts yn enedigol o Lanberis, yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Roberts, Glan Aber. Croeso cynnes i bawb.

ORGAN NEWYDD – Fore Sul, Tachwedd 30 cyrhaeddodd yr oes electronig gapel Rehoboth. 'Roedd y croeso i'r organ newydd yn dipyn cynhesach nag a gafodd yr hen harmoniwm a ddaeth i roi help i'r canu ym 1889 a hynny yn wyneb gwrthwynebiad mawr.

Un a ddylanwadodd yn fawr ar y penderfyniad bron i gan mlynedd yn ôl oedd Mr G.E. Jones a ddaeth o Fethesda ym 1875 i fod yn ysgolfeistr y pentref. Ef oedd yr organydd cyntaf a bu wrth y gwaith am ddeng mlynedd ar hugain. Organyddion y capel heddiw yw Mr a Mrs Derlwyn S. Jones a chafodd y ddau gyfle ar yr organ yn ystod y Sul cyntaf ond Mrs Jones oedd y gyntaf!

Roedd gwynt yr hen offeryn fel ambell hen chwarelwr, wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf yma a bydd yr organ newydd yn siŵr o fod yn help i'r organyddion, arweinydd y gân a'r gynulleidfa i gyd.

**NEGES BWYSIG**

1. CYSTADLEUAETH GWOBR GOFFA DANIEL OWEN - Y NOFEL
Gwobr: £500
[yn rhoddedig gan HTV Cymru]
Beirniaid: Beti Hughes, Selyf Roberts ac Emyr Humphries
Dyddiad cau: Ebrill 1af, 1981.
Gofynnir i bawb sydd am gystadlu anfon y gwaith i fewn ynghynt er mwyn eu hanfon ymlaen i'r beirniaid. Gobeithir cyhoeddi'r nofel fuddugol mewn pryd i ymddangos yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

2. Y FEDAL RYDDIAITH 8-10 O YSGRIFAU CREADIGOL
Beirniaid: John Rowlands, Eigra Lewis Roberts ac R. Tudur Jones
Dyddiad cau: Ionawr 31, 1981

Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru
**Maldwyn a'l Chyffiniau**
1-8 AWST 1981
Osian Wyn Jones, Trefnydd,
Swyddfa'r Eisteddfod, Heol y Doll,
Machynlleth, Powys SY20 1BR
Teliffôn: (0654) 2801

# DEINIOLEN

CLWB BEICIAU MODUR IEUENCTID PADARN – Dymuna Pwyllgor yr uchod ddatgan eu diolch i bawb a gefnogodd y noson wobrwyo a gynhaliwyd yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Wener Rhagfyr 5ed.

Derbyniodd yr enillwyr yn yr holl ddosbarthiadau gwpanau a chafodd pob un o'r ymgeiswyr fedal.

Dechreuodd y Clwb ryw chwe mis yn ôl gyda 5 aelod ond erbyn hyn mae'r nifer wedi cynyddu i 45. Gobeithir pan ailddechreua'r treialon ym mis Chwefror y bydd y nifer tua 100; rhai o bedair oed i fyny at 16 oed. Prif bwrpas y Clwb yw hyfforddi'r ieuenctid mewn diogelwch marchogaeth y beiciau modur, pan yn ieuanc ar gyfer yr amser y byddant yn barod i farchogaeth ar y priffyrdd.

DIOLCHIADAU – Dymuna Mrs M. Roberts, 31 Rhydfadog ddatgan ei diolch i'w theulu a'i chyfeillion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed ar Dachwedd 26. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH – Dymuna Terrie Morris, 92 Pentre Helen ddiolch o galon i bawb yn Ward Dwyfor, Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor a hefyd i'r teulu, cyfeillion a'r Parchedig Trevor Lewis am eu caredigrwydd tra bu yno.

LLONGYFARCHIADAU I James Andrew Jones, 94 Pentre Helen, ar dderbyn ei seren 1 gyda Chadlanciau'r Fyddin (Llanberis) ym Mhen-y-groes.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD – Nos Iau, Rhagfyr 4 cynhaliwyd cyfarfod o gymdeithas chwiorydd Disgwylfa. Dechreuwyd y Cyfarfod gan Mrs Nan Owen, Cynfi Terrace a chymerwyd rhan gan Mrs Miriam Lewis, Llys Myfyr a Mrs Marian Williams, Deiniol Rd. Cafwyd cân gan Mrs Ellen Jones, Caradog Place. Cydymdeimlwyd â phawb oedd yn wael. Bydd y Cyfarfod nesaf ym mis Chwefror. Diolchwyd am y te i Mrs Marian Williams, Deiniol Rd, a Mrs Jane Th. Jones, Caradog Place.

DIOLCH – Dymuna Mr John Maxwell ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion ynghyd â'i gyd-weithwyr yn Ferodo, am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag ato ar ôl ei ddamwain yn ddiweddar.

Dymuna Mr a Mrs O.G. Lewis, 33 Hafod Olau, ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a holl drigolion ardal Deiniolen, Dinorwig a Llanrug am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd eu merch, Catherine tra'n aros am ddeng wythnos yn ysbyty Alder Hey, Lerpwl. Hefyd diolch i'w gweinidog, y Parch Ifor Lloyd Williams ac i'r Parch Trevor Lewis, hefyd Brownies cyntaf Deiniolen ac i drydanwyr MBZ, Llanberis am eu rhodd o deledu lliw i Catherine sydd yn rhoi oriau o bleser iddi – Diolch i bawb.

Dymuna Ann a William Glyn, 50 Rhydfadog ddiolch i'w teulu, ffrindiau, a chymdogion, am y llu anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Dymuna Mrs Margaret Roberts, Crud yr Awel, Porth Gogledd, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

CYFARCHION – Dymuna Mrs Meira Jones, Menna, Elen a Siân 1 Pentre Helen, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu a'u holl ffrindiau. Ni fyddant yn anfon cardiau eleni.

DIOLCH – Dymuna Pwyllgor Cymhorthau Meddygol Deiniolen a'r Cylch ddiolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at y Gronfa. Y mae'n Gronfa barhaol a chroesewir unrhyw rodd tuag at y gwaith. Eisoes derbyniwyd nifer o roddion 'Er Cof'. Dymunir Nadolig Hapus a Blwyddyn Newydd Dda i bobl Deiniolen a'r Cylch.

DIOLCH – Dymuna Nellie Owen, Yr Aelwyd, Llanfairfechan, gynt o Ddeiniolen ddiolch i'r teulu a ffrindiau o Ddeiniolen am eu caredigrwydd yn ystod ei harhosiad yn ysbytai Bangor a Chaernarfon.

## TEYRNGED FECHAN I ŴR MAWR

**(gan y Parch Trefor Lewis, Deiniolen)**

Dydd Gwener, Tachwedd 28 daeth y newydd am farwolaeth y Parch J.R. Roberts, MA, BD, Bangor, neu 'John Tangraig' fel yr adwaenid ef gan bobl Deiniolen. Daeth tyrfa i'r gwasanaeth yng nghapel Twrgwyn, ar Ragfyr 2, yn cynnwys nifer o weinidogion fu'n cyd-oesi ag ef yn y Coleg a'r Weinidogaeth.

Un o blant Cefnywaun ydoedd ac nid anghofiodd hynny drwy gydol ei oes. Bob tro y gwelwn ef, gofynnai, "A sut mae pobol Cefnywaun?". 'Roedd y pwyslais a roddai ar 'bobol Cefnywaun' yn fynegiant o'i gariad tuag at yr eglwys a'i magodd. Ac yn sicr 'roedd lle cynnes iddo yntau ar yr aelwyd honno er iddo ei gadael ers blynyddoedd.

Dyma'r gŵr, meddai'r Parch John Roberts, Llanfwrog, y dywedwyd amdano, " 'Daiff o byth i'r Weinidogaeth', 'Chaiff o byth radd,' 'Wnaiff o byth lwyddo yn ei brawf gyrru modur.' Ond, fe aeth i'r Weinidogaeth, enillodd radd, tair ohonynt; a llwyddodd yn ei brawf gyrru, ar y cynnig cyntaf. O! na allwn feddu yr un penderfyniad ag ef. Yr oedd y geiriau, 'a pha beth bynnag a wnêl, efe a lwydda.' yn wir yn ei hanes.

Fe'i hordeiniwyd yn weinidog ym 1943, ac wedi cyfnodau yn ardaloedd Edern a Manceinion, treuliodd chwarter canrif ym Mhenycae, cyn ymddeol i Fangor. Bu'n Weinidog ffyddlon i'w Feistr, ac yn bregethwr y Gair. Pregethodd i'r diwedd; ychydig a feddyliai y rhai oedd yn gwrando arno yng Nghefnywaun ddiwedd Medi mai dyna fyddai'r tro olaf iddo yno. Priodol hefyd mai yng Nghefnywaun y mynychodd ei Gyfarfod Misol olaf, a chafodd gyfle i ddwyn sylw at 'Yr Ŵyl Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf'.

Er yn fychan o gorffolaeth 'roedd ymhlith y cewri yn y pulpud, a chwithdod yw meddwl na chlywir eto mo'i lais yn sôn am y Drefn o bulpudau'n gwlad.

Yn ystod ei fywyd gwnaeth lawer i gefnogi gwaith yr Ysgol Sul. Loes iddo ef oedd gweld cymaint o ddifaterwch ymhlith rhieni Cymru, a hwythau wedi cael y fraint o dderbyn addysg grefyddol yn yr Ysgol Sul.

Y mae cymaint y gellid ei ddweud, ond byddai angen rhifyn arbennig o'r 'Eco' ar gyfer hynny, a pheth arall, ni fyddai 'John Tangraig' yn hoffi'r syniad. Ond, ni ellir gadael i'r cyfle fynd heibio heb dalu rhyw gymaint o wrogaeth i'r gŵr hynod yma. 'Rwyf yn diolch am gael ei adnabod, er mai dim ond am gyfnod byr, ond yn ddi-os yr oedd yn gyfaill i weinidogion ieuainc a dibrofiad. Diolch am ei gwmni mewn cyfarfod misol, ac am gael bod yn 'llygaid' iddo ambell dro.

Diolchwn i Dduw amdano, ac am ei alw i'r barchus arswydus swydd. Eiddunwn i'w weddw, Mrs Megan Roberts, ac i'w frawd, Robert David Roberts, nerth y Goruchaf.

## PEDAIR CENHEDLAETH YN DATHLU



*Llongyfarchiadau i Mrs M. Roberts, Rhyd Fadog ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Dyma hi yn dathlu gyda thair cenhedlaeth arall o'i theulu: Mr Gwilym Roberts, ei mab, ei fab yntau Mr Islwyn Roberts gyda'i blant Leri a Iolo.*

## BRYNREFAIL

YR URDD – Croeso i aelodau'r Urdd i ddod i 'Ddisgo'r Urdd' yn neuadd ysgol Cwm-y-glo, nos Wener, Ionawr 9 o 6.30 tan 8.00 y nos. Pris mynediad 15c.

CLWB PEDWAR UGAIN – Enillwyr mis Tachwedd: 7ed – 1. Helen Jones, 2. Geraint Morris, 3. Audrey Roberts. 14 – 1. Huw Evans, 2. Carol Houston, 3. Eifion Roberts. 21 – Islwyn Williams, 2. Sheila Roberts, 3. Charles Jones. 28 – O.J. Williams, 2. Wilburt Williams, 3. Pat Mowll.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yng nghyfarfod blynyddol y sefydliad yn Nhŷ Glas ar Dachwedd 20, etholwyd swyddogion am y tymor newydd, sef: Llywydd, Jennie Hughes, is-lywydd, Gwyneth Jones, ysgrifennydd, Carol Houston, trysorydd, Rhian Jones.

Cafwyd cymorth Mrs Vera Hughes o Fethesda yng ngweithgareddau'r noson. Paratowyd te gan Mair Williams a Jinnie Roberts. Rhoddwyd anrheg y mis gan Carol Houston ac fe'i henillwyd gan Mrs M. Griffiths. Bydd y sefydliad yn ymuno â Chlwb 'Refail am swper Nadolig ar Ragfyr 12.

CLWB MAMAU – Daeth yr aelodau ynghyd am swper Nadolig yn y Llety, Caeathro ar Ragfyr 10. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jackie Jones, ac fe'i henillwyd gan Rhian Jones.


## Y COLEG NORMAL, BANGOR

**Prifathro Dr. J.A. Davies, M.A., B.Sc.**

**Crefft, Cynllunio a Thechnoleg**

Mae prinder difrifol o athrawon i lenwi swyddi yng ngweithdai Adrannau Crefft a Chynllunio ein hysgolion. Beth am ddod i'r Coleg Normal i'r Adran Gynllunio Crefft a Thechnoleg i ddilyn un o'r cyrsiau canlynol.

**DIPLOMA ADDYSG UWCH**
(Cwrs dwy flynedd)

Mae'r cwrs hwn yn arwain i:
B.Add. un flwyddyn
B.Add. (Anrhydedd) dwy flynedd

**DIPLOMA ADDYSG UWCH**
(Cwrs terfynol)


**CWRS I RADDEDIGION**
(un flwyddyn) a all gynnwys agweddau ar Grefft, Cynllunio a Thechnoleg.

**Amodau mynediad:**
Dau bwnc safon 'A'
Rhoddir ystyriaeth arbennig i fyfyrwyr hŷn (23+).

Os am fwy o fanylion neu gyfle i drafod y posibiliadau cysyllter â Swyddog Mynediad, Y Coleg Normal, Bangor, Gwynedd. LL57 2HQ. Tel. (0248) 52121.



*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth*



**BECWS DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS
Dosberthir drwy'r fro

# O SIAMBAR SELWYN

**Nadolig Llawen i chi i gyd yn enwedig i chi'r plant. Gair i'r plant sy gen i am y tro.**

**Ers talwm roedd 'na dri dyn clyfar yn byw yn y Dwyrain 'na. Roeddan nhw wrth eu bodd yn astudio'r sêr, ac yn cael hwyl arni hefyd. Un noson fe welson nhw seren newydd yn disgleirio yn yr awyr. Duw wedi trimio – y trimins cynta i gael eu gosod reit siŵr.**

A dyma'r tri dyn clyfar 'ma yn neidio ar gefn eu camelod, ac i ffwrdd â nhw, gan ddilyn y seren ddisglair 'ma yn yr awyr. Yn sydyn fel 'traffic leits', dyma'r seren yn stopio'n stond – union uwchben beudy tlawd ym Methlehem Judea. Dyma'r tri dyn yn mynd i mewn i'r beudy a dyma nhw'n gweld Brenin y brenhinoedd yn cysgu'n sownd yn y gwair.

Ia, – Iesu Grist oedd o, – a 'doedd o'n poeni dim am nac aur na thus na myrr, a 'doedd o'n malio'r un botwm corn am Herod na neb.

A wyddoch chi be – mi 'roedd y tri boi clyfar 'na yn ddigon call i fynd adre ar hyd ffordd arall. Mi chwaraeon nhw dric â Herod, ac mi roddon nhw bresanta Nadolig i'r hen foi bach. Y presanta Nadolig cynta i gael eu rhoddi erioed, ac mae'n siŵr gen i ma'r tri dyn clyfar 'ma oedd y tri Santa Clos cynta 'rioed hefyd. 'Dolig da ynte!

Y trimins cynta, yr anrhegion cynta, a'r Santa Clos cynta', a'r cyfan yn digwydd oherwydd i Frenin gael ei eni mewn beudy.

Nadolig llawen iawn i bob un ohonoch, a gobeithio'n wir y cewch chwitha lawer o anrhegion i'w hagor o dan y trimins ac y daw Santa atoch o dan olau'r sêr.

Os bwytewch chi'n gymedrol efallai y medrwch ganu carol ar ôl cinio. Dyma un newydd ichi.

**TRI GŴR DOETH**

**Tri gŵr doeth**
**Yn mynnu mynd ar daith,**
**I wlad sy mhell i ffwrdd, mae'n siwrne faith,**
**Eira'n ysgafn ddisgyn drwy y nos,**
**Carped gwyn dros ffridd a bryn a rhos,**
**Ac wele seren ddisglair yn y Nef**
**I arwain doethion draw i Fethlem dref.**


**Mae'r daith yn hir**
**A brath y gwynt sy'n oer,**
**A'r barrug sydd fel perlau dan y lloer,**
**Ond clywch o'r pellter gân yr engyl gwyn**
**A sŵn eu mawl yn atsain dros y bryn,**
**Ac wele seren ddisglair yn y Nef**
**I arwain doethion draw i Fethlem dref.**

**Tri gŵr doeth**
**Yn cyrraedd Bethlem dref**
**Penlinio wnant wrth breseb Brenin Nef,**
**Rhoi anrhegion yn hosan baban Mair**
**A sibrwd 'Dolig llawen' uwch y gwair,**
**Ac wele seren ddisglair yn y Nef**
**Arweiniodd ddoethion draw i Fethlem dref.**

*Selwyn Griffith*

Hwyl fawr i chi gyd.
Selwyn


**Wrth droed yr Wyddfa . . .**



**BWYTY FFERM**
**BRON ERYRI**
**LLANBERIS** Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty Trwyddedig
A la Carte
Bwyd Basgedi
Bwyd Môr Ffres

**Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn**

Partion
Ciniawau
Gwleddoedd
Priodasau

*Lle i 110 ar y tro*
*Ffoniwch i fod yn saff o le*

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**


# TRADDODIAD A CHOEL

**gan 'Yr Hen Dderwydd'**

## Y CALAN A DECHRAU'R FLWYDDYN

Gyda dyfodiad Nos Calan a Dydd Calan, deuai ail gyfnod pwysig y 'Gwyliau'; yn bwysicach yn y gorffennol na dydd Nadolig ei hun. Yn wahanol i ben-blwydd unigolyn, dyma ddydd pen-blwydd y gymdeithas gyfan. Dyma arwydd fod yn rhaid torri ymaith o ddigwyddiadau a helyntion y flwyddyn a aeth heibio, ac edrych ymlaen i flwyddyn newydd a gobeithion newydd. Roedd yn ofynnol talu pob dyled cyn dydd Calan, ac yr oedd benthyg (hyd yn oed benthyg tân i oleuo cannwyll) ar y dydd hwnnw yn anlwcus.

Roedd ymddygiad dyn ar ddechrau blwyddyn yn arwydd o'i ymddygiad am y gweddill o'r flwyddyn, ac yr oedd yr hen bobl yn boenus iawn ynglŷn â gwahanol arwyddion yng nghymeriad dyn ar y diwrnod hwnnw. Roedd arwyddion y tywydd hefyd yn cael eu gwylio a'u dadansoddi'n ofalus. Yr ymboeni hwn ynglŷn â lwc dda am weddill y flwyddyn sydd tu cefn i'r traddodiad o roi anrhegion ar ddydd Calan; o ddymuno'n dda i ffrindiau a chymdogion, ac o hel calennig.

Trosglwyddwyd llawer o draddodiadau ac arferion y Calan i Ddydd Calan Hen pan newidiwyd y calendr yn 1752. Roedd yn draddodiad gan ffermwyr mewn rhai ardaloedd i roi gwledd i'w cymdogion i ddiolch iddynt am eu cymorth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Cafodd y wledd hon ei throsglwyddo i'r Hen Galan. Byddai rhai yn ymweld â mwy nag un fferm yn y dydd, gan gyrraedd yn y bore i bryd o fara a diod – pryd cyntaf y diwrnod. Byddai cinio o gig gŵydd a phwdin ar gael erbyn canol dydd, ac os deuai unrhyw un yn hwyr, roedd yn siŵr o rywfaint o bwdin a digon o ddiod i'w yfed; fel arfer, diod wedi ei fragu gartref.

Roedd Dydd Gŵyl Ystwyll neu'r Serenwyl ar y 6ed o Ionawr yn ŵyl bwysig, yn enwedig yn y calendr eglwysig, gyda'i gysylltiadau â'r doethion. Roedd yr ŵyl hon yn bwysig am ddau reswm.

Yn gyntaf, dyma ddiwedd cyfnod y 'Gwyliau' (distyll y Gwylliau) yng ngolwg llawer, er bod llawer o ddathlu yn parhau hyd Ddydd Gŵyl y Canhwyllau ar Chwefror 2il. Ar Ddydd Gŵyl Ystwyll, rhaid oedd cadw addurniadau'r Nadolig, a llosgi'r uchelwydd a'r cyff Nadolig, gan gadw'r lludw yn ofalus i'w roi ar y tir wrth blannu cnydau yn y gwanwyn.

Yn ail, dyma hefyd yr hen ddydd Nadolig, yn dilyn y newid yn y calendr. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, roedd y Nadolig yn parhau i gael ei ddathlu ar y 6ed o Ionawr mor ddiweddar â chanol y ganrif ddiwethaf.

Roedd tri thraddodiad yn gysylltiedig â'r ŵyl hon yng Nghymru: y Fari Lwyd, canu gwasael a chario'r dryw. Mae traddodiad y Fari Lwyd yn fwy adnabyddus yn y de nag yn y gogledd, a chredir mai olion hen draddodiad paganaidd yw yn gysylltiedig â cheffyl.

Rhialtwch o ganu, dawnsio, bwyta ac yfed sy'n gysylltiedig â'r gwasael – efallai mai dyma ben-llanw'r 'Gwyliau'. Roedd llawer o'r caneuon gwasael hyn yn grefyddol eu naws, ond y mae eraill yn dangos gwir bwrpas y cantorion a'r dawnswyr:

**"Arfer y Nadolig yw**
**Rhodio'r nos lle byddo gwiw**
**I edrych ple bo diod dda . . ."**

Mae'n debyg nad oedd yr arfer yn golygu dim mwy nag esgus i hawlio bwyd a diod yn gyfnewid am gân a dawns.

Ychydig a wyddom am y trydydd traddodiad o gario dryw bach o amgylch y tai ar fath o elor bren fechan – ond gallai fod yn rhan o draddodiad y Fari Lwyd yn Sir Benfro hyd tua canrif yn ôl, er bod adar y to yn cael eu defnyddio'n hytrach na dryw. Beth tybed oedd pwrpas yr holl ddefod?

Erbyn heddiw, anghofiwyd llawer o draddodiadau'r 'gwyliau' a daeth arferion newydd yn gysylltiedig â hwy : Siôn Corn a'i glogyn coch yn lle'r Fari Lwyd a'i chynfas wen, a'r robin goch ar gerdyn Nadolig yn hytrach na dryw bach mewn elor bren.

# CAROLAU'R NADOLIG

**PRESEB GLÂN**

**Diolch Arglwydd ddylem heddiw**
**Fod pob llety yno'n llawn**
**Pwy a garai eni baban**
**Yn y dwndwr swnllyd iawn.**

**Diolch Arglwydd am y noddwr**
**A agorodd ddrws i Mair,**
**Ef rodd iddi loches cynnes,**
**Bwyd a diod, gwely gwair.**

**Diolch Arglwydd am it arwain**
**Mair i lety tawel, clyd,**
**Yno ganwyd ein Meseia,**
**Glân a chynnes oedd ei grud.**

**Diolch Arglwydd am yr heddwch,**
**Am y preseb, am y gwair.**
**Am gynhesrwydd yr anifail**
**Roddodd gysur gwiw i Mair.**

**Diolch Arglwydd am Nadolig**
**I fyfyrio ennyd awr.**
**Plygwn lin wrth ganfod glendid**
**Sydd yn puro'r gofod mawr.**

**NADOLIG LLAWEN**

**Nadolig, ein gŵyl fendigedig yn wir**
**A neges mor hapus yw'r hanes trwy'r tir.**
**Duw yn ei ogoniant mewn Baban bach triw,**
**O, Iesu, Ti ddaethost i'm calon i fyw.**
**Lamp ddisglair sydd gennyt o hyd yn dy law**
**I arwain plant bychain y byd yn ddi-fraw.**
**Glân oedd y preseb, a chynnes y gwair,**
**LLety anifail gadd Baban bach Mair.**
**Arno yn syllu mae'r doethion yn fud,**
**Wele anglion yn gwarchod ei grud.**
**Eto, mae Seren yn entrych y Nen,**
**Nef ddaeth i ddynion–**
**Haleliwia, Amen!**

*Ein diolch i Mrs Dilys Daylis, Meirionfa, Llanberis am anfon y carolau uchod i'r Eco.*

**PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN**
(Waun Agricultural Engineering)

# Owen Owen

Ffôn: WAUNFAWR 253

- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH

# Modurdy PANT WAUN

WAUNFAWR
(JOHN FERRARESE)

GWASANAETH TORRI-LAWR A THRWSIO CEIR
PROFION M.O.T.
TRIN PANELAU ac ati

Ffôn: WAUNFAWR 524
- Hefyd CAERNARFON 5214
pan fydd y modurdy ar gau

---

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

# SMITHY GARAGE

(PERCHENNOG W.M. CATT)
WAUNFAWR
*Ffôn: WAUNFAWR 518*
Gwerthwyr, Peirianwyr
ac Atgyweiriwyr Ceir

---

# EVAN DAVIES

## Gwerthwr Glo

Ffôn: WAUNFAWR 341

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD GYNNES
I'N CWSMERIAID I GYD!

---

# CYFARCHION NADOLIG O'R WAUNFAWR A CHAEATHRO

---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ICHWI OLL oddi wrth
JOHN & MAUREEN HANLON a'r Staff

# SNOWDONIA PARK HOTEL

## Waunfawr

FFÔN: 218

*DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN YSTOD 1980*

---

NADOLIG LLAWEN
a BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth bawb
ym

# MODURDY Whitewous

WAUNFAWR

BYSIAU I'W LLOGI
*Ffôn: Waunfawr 226*
*Caernarfon 3325/6*

---

NADOLIG LLAWEN a
BLWYDDYN NEWYDD
DDA i chwi oll

oddi wrth

# IEUAN WILLIAMS

CIGYDD

WAUNFAWR

---

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

# T.A.Thomas Ltd.

(ADEILADWYR)

BWYDYDD, MELYSION,
FFRWYTHAU A
PHAPURAU NEWYDD
Hefyd
Offer Tŷ a Gardd

*Ffôn: Waunfawr 276*

---

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid
oddi wrth

E. A. & W. WALTER

# Llythyrdy WAUNFAWR

Bwydydd, Ffrwythau,
Papurau newydd a
Llysiau Ffres
Ffôn: Waunfawr 651

# WAUNFAWR

PWYLLGOR CARNIFAL YR YSGOL FEITHRIN – Trefnydd y Carnifal am y tymor 1980-82 yw Carys Owen, Gilfach, a'r Trefnydd Ariannol yw Carys Jones, Saron Wen. Iris Owen yw Llywydd y Pwyllgor.

Cynhelir Gyrfa Chwist nos Lun, Ionawr 12 1981 yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i bawb. Codir tâl mynediad o 30c gyda'r elw yn mynd at y Carnifal.

PLYGU'R 'ECO' – Bu cynrychiolwyr y cymdeithasau a'r mudiadau canlynol yn helpu i blygu'r 'Eco' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Chwefror: Sefydliad y Merched, Mawrth: Dosbarth y Dysgwyr, Ebrill: Aelwyd yr Urdd, Mai: Pwyllgor y Grŵp chwarae, Mehefin: Pwyllgor yr Ysgol Feithrin, Medi: Merched y Wawr, Hydref: Clwb Gwyrfai, Tachwedd: Y Gymdeithas.

Manteisiwn ar y cyfle yma i ddiolch i'r plygwyr am eu cymorth. Gwahoddir chwi i helpu eto yr un mis y flwyddyn nesaf. Mae angen mwy o gymdeithasau i lenwi'r bylchau yn ystod y flwyddyn. Cysylltwch â John Roberts, Waunfawr 545.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd Ffair Nadolig flynyddol y Blaid nos Wener, Rhagfyr 5. Cafwyd cunulliad da a galwodd Siôn Corn heibio gydag anrhegion i'r plant. Yn bresennol roedd Mr Aled Griffith, Trefnydd etholaeth a Mrs Griffith. Cyflwynwyd hwy gan Eurig Wyn, a hefyd diolchodd i bawb am eu cefnogaeth.

Trefnwyd y Ffair gan ferched y gangen ac maent yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd ym mhob ffordd i lwyddiant yr achlysur.

Enillwyd y raffl gan Mrs Jones-Evans a Mr Rhodri Jones a ddyfalodd bwysau'r gacen. Yng nghyfarfod mis Ionawr bydd panel o siaradwyr yn dadlau ar y testun 'Ynni Niwcliar' – O Blaid neu Yn Erbyn.

LLONGYFARCHIADAU i Gillian a Roe Wills, Pant y Defaid ar enedigaeth mab, Edward.

I John a Grace Dawson, Pant y Waun ar fod yn Nain a Thaid. Ganwyd baban i'w merch Susan.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref i Rosina Owen, 4 Dôl Erddi; David Davies, Nant y Mynydd; Mr H.M. Thomas, Bro Waun a Mr W. Griffiths Bronallt. Gobeithio eu bod yn dal i wella.

PROFEDIGAETH – Cydymdeimlir â Mrs Stanley Williams, 10 Bryn Golau ar golli ei phriod.

CLWB Y MAMAU – Diwedd Tachwedd mwynhaodd aelodau'r Clwb a'u ffrindiau eu taith siopa Nadolig flynyddol i Gaer. Cafwyd digon o wario a digon o hwyl yn ogystal â swper blasus ar y ffordd adref.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Nos Lun, Rhagfyr 8 cafwyd cyfarfod i ddathlu'r Nadolig, wedi ei drefnu gan Eurig Wyn. Llywyddwyd gan Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan, a chafwyd eitemau gan Ifanwy Rhisiart, Rhian Ellis, Gillian Wyn, Dafydd Iwan ac Eurig Wyn. Canwd carolau dan arweiniad Mr Idris Humphreys, gyda Mr Wyn Jones yn cyfeilio.

BYNSAN BINC – Nos Fawrth, Ionawr 27 yn Neuadd yr Eglwys bydd sioe dymhorol Theatr Bara Caws yn ymweld â'r pentref dan nawdd yr Aelwyd a'r Ysgol Feithrin. Bydd y sioe hon sy'n llawn hwyl a miri yn addas i'r teulu i gyd. Bydd yn gyfle i blant a phobl y pentref ddod at ei gilydd i fwynhau caneuon, straeon a chymeriadau di-ri, mewn un parti mawr.

MERCHED Y WAWR – Nos Iau, Tachwedd 27 mwynhaodd yr aelodau ginio Nadolig blasus yng Ngwesty'r Foelas Llanrug; ac i ddilyn cafwyd adloniant hynod o hwyliog gan yr Actor John Ogwen. Ar ôl ymweliad gan y frân wen y noson cyn y cinio roedd John Ogwen wedi cyfansoddi penillion i rai o'r aelodau, ond gwell peidio â'u cyhoeddi yng ngholofnau'r Eco!

Mrs Mary Awstin Jones oedd yn bennaf gyfrifol am yr anrhegion o dan y platiau. Rhoddwyd y ddwy raffl gan Rhian Ellis a Llinos Cadwaladr ac enillwyd hwy gan Mrs Annie Thomas, Haulfryn, a Mrs Williams, Cefn Coed. Cyflwynwyd John Ogwen gan y llywydd, Rhian Ellis a diolchwyd iddo'n gynnes iawn gan Greta Hughes! Diolchodd Irene Roberts i drefnwyr y noson, ac i roddwyr y gwobrau.

Bydd y cyfarfod nesaf am 7.30 nos Iau Ionawr 22 yn Neuadd yr Eglwys pryd y ceir sgwrs, paned a chân yng nghwmni Dafydd Iwan. Gwahoddir y dysgwyr i'r cyfarfod hwn ac apeliwn am gefnogaeth yr holl aelodau.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys, nos Iau, Rhagfyr 4 gyda Mrs C.A. Jones yn llywyddu. Croesawodd Mrs Buddug Rowlands yn ôl ar ôl ei gwaeledd ac yr oedd yn falch fod Mrs Morgan Jones wedi gwella a bod gŵr Mrs Griffith, Bronallt yn gwella. Cydymdeimlodd â Miss Powell yn ei phrofedigaeth. Darllenodd y llywydd lythyr a dderbyniodd gan Mrs Blackstone, cyn-aelod, sydd wedi mynd i fyw i'r Amwythig.

Darllenwyd y llythyr misol a'i drafod. Cafwyd arddangosfa a sgwrs ddiddorol ar Ddarparu at y Nadolig gan Mrs Roseanne Hughes. Diolchwyd iddi gan Mrs Morgan Jones. Enillwyd y rafflau gan Mrs Idris Jones, Mrs M. Griffith, Mrs Morfa Evans a Mrs Lloyd Williams. Rhoddodd Mrs Nesfield y blodau i Miss Powell.

Cynhelir y cyfarfod y mis nesaf, sef Parti, yn Neuadd yr Eglwys, nos Iau, Ionawr 1af.

DIOLCH – Dymuna Olwen Williams, ddiolch i bawb am bob cymorth wrth gasglu newyddion yr Eco; ac yn arbennig i Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen.

Cofiwch gysylltu â'ch gohebydd newydd, Mrs Glenys Jones, Rhandirmwyn | gyda'ch newyddion. (Ffôn: Waunfawr 626.)


Cyfarchion yr Ŵyl
oddi wrth
JONES & OWEN

BECWS
Y
WAUN

Bara Cartra
Brown, gwyn a brith
Pastai a theisennau
O'r popty ddaw yn syth

Ffôn: Waunfawr 239



NEGES BWYSIG I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

Spreio
AA
RAC
Petrol Rhad
Ceir Newydd
Gwasanaeth Torri Lawr 24 awr – cerbydau trwm ac ysgafn
Ceir Ail Law
Trwsio Tolciau
Weldio
Gwarant 2 Flynedd gyda phob car 1979 & 1980

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Oddi wrth

GWALIA GARAGE

PERCHENOGION
H.G. & H.S. EVANS
CAEATHRO




Ford

Ffôn:
CAERNARFON 3096

## CWM-Y-GLO

YR URDD – Croeso i aelodau'r Urdd ddod i Ddisgo'r Urdd yn neuadd ysgol Cwm y Glo, nos Wener, Ionawr 9 o 6.30 tan 8.00 y nos. Pris mynediad fydd 15 ceiniog.

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Tachwedd 29 yn eglwys Sant Mihangel, Llanrug priodwyd Miss Linda Easton, 46 Glendwer Road, Peverell, Plymouth a Mr Leslie Vaughan Williams, Nant Forgan. Gweinyddwyd gan y Parch D.G. Williams. Y morynion oedd Delyth Williams, chwaer y priodfab a Michelle Easton, nith y briodferch. Mr John R. Chick, cefnder y priodfab oedd y gwas, a'r ystlyswyr oedd Mr Gwyn Lewis a Mr D. Cyril Jones. Croesawyd y gwesteion i'r wledd briodas ym Mron Eryri, Llanberis. Bydd y ddau yn ymgartrefu yn Gibraltar, lle mae'r priodfab yn ymgymryd â'i waith gyda'r Llynges Brydeinig.

Dymuna Linda a Leslie ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu hanrhegion, y llu o gardiau a'r dymuniadau da ar achlysur eu **priodas.**



*Linda a Leslie ar ôl eu priodas yn Eglwys Llanrug.*

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Undeb y Mamau yn y ganolfan gymdeithasol ddechrau mis Tachwedd o dan lywyddiaeth y Rheithor, ac ef hefyd oedd yn arwain y gwasanaeth agoriadol. Yn ei anerchiad dywedodd y rheithor mor bwysig oedd aelwydydd crefyddol a bod i'r fam gyfrifoldeb arbennig, yn enwedig ar yr adeg yma yn ein hanes pan yw gwerthoedd pobl a'u daliadau crefyddol yn gwanhau. Etholwyd Mrs D.G. Williams fel Aelod Gweithredol a Mrs J.E. Watkins, Dolwen i'w chynorthwyo. Penodwyd Mrs G. Pierce, Glan'rafon, Pontrug a Mrs L. Orritt, Morannedd, Cwm y Glo yn Ysgrifenyddion a Mrs T. Owen, Isfryn a Mrs H. Roberts, Bodgwynedd yn drysoryddion. Miss A.C. Jones, Glanllyn fydd ymwelydd y claf yn Llanrug a Mrs T. Roberts, Bod Gwilym a Miss C. Hughes, Pool Street yn ymwelwyr y cleifion yng Ngwm-y-glo. Diolchodd y rheithor i bawb o'r aelodau am eu gwasanaeth ac i'r swyddogion am eu hymdrechion hwythau. Ddechrau mis Rhagfyr bu Gwasanaeth Carolau yn y ganolfan o dan arweiniad y rheithor. Miss C. Hughes oedd y cyfeilydd. Darparwyd lluniaeth ysgafn wedi'r gwasanaeth gan Miss C. Hughes a Mrs D. Jones, Fron Gader a diolchwyd iddynt gan y Rheithor. Mrs Williams y Rheithordy oedd yn llywyddu'r cyfarfod busnes.

GWAELEDD – Anfonwn ein cofion at Mrs T. Owen, Isfryn, Mrs M. Chick, Mairlys a Mr J.E. Watkins sydd ar hyn o bryd heb fod mewn iechyd rhy dda a gobeithiwn y byddant oll yn gwella ar fyrder.

GWASANAETHAU'R NADOLIG YN EGLWYS SANT GABRIEL – Nos Sul, Tachwedd 12 am 6.00 bydd Gwasanaeth y Plant, dydd Nadolig, 9.00 am – Cymun Bendigaid.

# PENISARWAUN

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Rhagfyr 6 yn eglwys Santes Helen, Penisarwaun priodwyd Miss Brenda Elizabeth Williams, 20 Bryn Tirion â Mr Richard Edward Healy, 2 Ffordd Pandy, Caernarfon. Gweinyddwyd gan y Canon Alun Jones a'r Tad P. Mac Namara. Y forwyn oedd Miss Carol Ann Healy, a'r gwas oedd Mr Peter Viney. Yr ystlyswyr oedd Mr Kenneth Williams a Mr Richard Parry. Croesawyd 40 o westeion i'r wledd briodas ym Mron Eryri, Llanberis a byddant yn ymgartrefu yng Nghaernarfon.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Fe gafwyd cyfarfod blynyddol Sefydliad y Merched, nos Fawrth, Tachwedd 25. Miss Ellen Owen o Lanfaglan oedd y VCO. Dyma enwau'r swyddogion am y flwyddyn nesaf: llywydd, Mrs Margaret Williams; is-lywydd, Mrs B.E. Hughes; trysorydd, Mrs Ann Jones ac ysgrifennydd, Mrs M Davies. Rhoddwyd y te gan Mrs E. Porter a Mrs K. Williams.

LLONGYFARCHIADAU i Kenneth Williams, Llwyn Derw am ennill Tystysgrif arbennig yn yr Awyrlu am ei ddyfeisgarwch yn helpu i wella gwasanaethau peirianyddol yr Awyrlu.

DYMUNWN WELLHAD BUAN i Bryngwyn Griffith, 5 Bryntirion sydd yn yr ysbyty yn Llundain, ac i Rhian Williams, Glyn Euron sydd wedi cael llawdriniaeth ym Mangor.

Cafodd Siôn Roberts, 6 Bryn Eglwys ddamwain i'w law yn ddiweddar hefyd.

DIOLCH – Fe garai aelodau Clwb yr Heulwen ddiolch i bawb am eu rhoddion tuag at eu swper Nadolig, yn arbennig i Mrs B.E. Hughes, 1 Brynhyfryd a Mrs N.E. Jones, Meillionydd am wneud Parti 'Tupperware' a rhoi'r swm o £16 i'r Clwb.

DIOLCH – Dymuna Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion ddiolch i bawb a ddangosodd garedigrwydd iddi ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed.

DIOLCH – Dymuna Ellen, Delyth ac Elinor ddiolch i bawb a gefnogodd eu parti 'Tupperware' ym Mhenpwllcoch yn ddiweddar. Gwnaethpwyd £15 tuag at Gronfa Rhian Wyn.

YR YSGOL FEITHRIN – Dymuna pwyllgor yr Ysgol Feithrin ddiolch i bawb wnaeth ymateb i'r hysbysebion fu yn yr **Eco** diwethaf. Daeth rhai teganau i law yn barod a chafwyd addewidion am rai eraill. Cawsom addewid am garped hefyd. Carem ddiolch i Mr a Mrs T.W. Griffiths am eu rhodd ariannol ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi dangos diddordeb. Rydym wedi medru agor cyfrif yn awr ag arian a roddwyd inni gan y Cyngor Cymuned a gobeithiwn gynnal gweithgareddau yn y Flwyddyn Newydd i ychwanegu at y gronfa gan fod tipyn o gostau ar ddechrau tymor i yswirio'r plant bach ac i gyfrannu tuag at gostau gwresogi'r Neuadd a thalu cyflog i athrawes. Nid yw Mudiad yr Ysgolion Meithrin yn dod o dan Awdurdod Addysg Gwynedd.

Hyd yn hyn ni chafwyd un cais am y swydd o athrawes i'r Dosbarth. Hoffem i chwi ailystyried a chofiwch nad oes raid i'r ymgeisydd fod yn athrawes drwyddedig. Tua dwy bunt y bore yw'r cyflog am ddwyawr, o bosib ddau fore'r wythnos. Wyddoch chi am rywun fuasai â diddordeb? Anfonwch at yr ysgrifennydd Mrs Myfi Jones, Fanwylen, Penisarwaun, ffôn Llanberis 867 cyn gynted ag y medrwch.

NOSON WASAEL – Roedd y Noson Wasael a gynhaliwyd yn yr Ysgol Gynradd, nos Wener, Rhagfyr 12, er budd Eisteddfod y Pentref, yn llwyddiant mawr, er gwaethaf y tywydd anffafriol. Cawsom wledd ar gân gan barti dawnus 'Lleisiau'r Gweunydd' a mawr yw ein diolch iddynt. Diolch hefyd i bawb a gefnogodd y noson; i'r merched am eu gwaith caled yn y gegin; i'r rhai a roddodd y gwobrau raffl, ac i'r prifathro am ei barodrwydd i ganiatáu i ni ddefnyddio'r ysgol, ac am arwain y gweithgareddau. O ganlyniad i'r noson ychwanegwyd oddeutu £40 i goffrau'r Eisteddfod.



### ENW'R BARDD OS GWELWCH YN DDA

Ydach chi'n cofio'r penillion yn sôn am fws y chwarel, rhifyn mis Mai o'r Eco? Mae nifer o bobl yn awyddus i wybod pwy oedd y bardd a gyfansoddodd y geiriau. Daeth Mrs M. Thomas, Penisarwaun o hyd i gopi o'r geiriau gyda'r enw 'Rhiwenydd' arnynt. I'ch atgoffa dyma bennill o'r gerdd:

**Er mwyn i chi wybod y Cymry ar daen;**
**Prif dref Llanddeiniolen yw Penisa'rwaun;**
**A'i phobl yn rhifo rhai miloedd sydd**
**A'i thwrw a'i masnach yn fwy na Chaerdydd.**

### Atebion Pôs 'Neges Gudd'

1. Banadl, 2. Machynlleth, 3. Bedwyr, 4. Non, 5. Bolifia, 6. Curiad, 7. Bugail, 8. Collen, 9. Brain, 10. Crawia, 11. Caeredin, 12. Banana, 13. Triagl, 14. Beddgelert, 15. Tylluanod, 16. Norwy, 17. Gwylliaid, 18. Brecwast, 19. Gwenwyn, 20. Cowlyd, 21. Chwyn, 22. Carnifal, 23. Ffrwyn, 24. Perllan, 25. Olwen, 26. Siôn Corn, 27. Dinorwig.


AR WERTH
BEICIAU PLANT – Tomahawk (6 i 9 oed) fel newydd. Gemini (6 i 8 oed) cyflwr da – £18. Small rider (4 i 6 oed) cyflwr da – £18. Ffôn: Bethesda 600668.

**Eisteddfodau Teulu James Pantyfedwen**
**Pontrhydfendigaid**
**CYSTADLEUAETH CHWARAE DRAMA,**
**NA CHYMER FWY NAG AWR I'W LLWYFANNU**
**GWOBRAU:**
**1. £400 + TLWS**
**2. £200**
**3. £100**
**ynghyd â gwobrau eraill.**
**Rhagbrofion i ddechrau Mis Mawrth.**
**Prawf terfynol, Nos Wener yr Eisteddfod, 22 Mai.**
**Enwau i Swyddfa'r Eisteddfod erbyn 7fed o Chwefror.**
**Beirniad: JOHN OGWEN**


**GWASANAETH NEWYDD YNG NGHAERNARFON**
**Bathodynau Crwn ar gyfer . . .**
Clwb Rygbi/Tîm Peldroed/Cymdeithas
Grŵp Pop/Clwb Gwerin/Papur Bro
Siop/Busnes/Swyddfa, etc, etc
*Am fwy o fanylion a samplau cysyllter ag:*
**EURIG WYN**
**SIOP Y PENTAN**
**YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS**
**CAERNARFON (Ffôn: 5262)**
**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.**

## Dyddiadur y Mis

IONAWR

1. Iau: WAUNFAWR – Parti Flwyddyn Newydd Sefydliad y Merched
LLANRUG – Cinio Blynyddol Undeb y Mamau yng Ngwesty'r Afr, Beddgelert.
9. Gwener: LLANBERIS – Te bach yr Henoed.
CWM-Y-GLO a BRYNREFAIL – Disgo'r Urdd yn Ysgol Gynradd, Cwm-y-glo o 6.30-8.00.
12, Llun: WAUNFAWR – Gyrfa Chwist dan nawdd y Pwyllgor Carnifal yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
13, Mawrth: BETHEL – Clwb Bro Bethel.
YR ARDAL – Theatr Bara Caws yn perfformio 'Bynsan Binc' yn Ysgol Brynrefail am 7.30.
14, Mercher: BETHEL – Merched y Wawr – gwesteion o Gangen Cwm-y-glo.
19, Llun: LLANBERIS – Cymdeithas Lenyddol y Capeli – J.O. Roberts a'i raglen 'Broc Môn' yn Festri Capel Coch.
BETHEL – Clwb y Rhos.
22, Iau: WAUNFAWR – Merched y Wawr – Noson o Sgwrs, Paned a Chân yng Nghwmni Dafydd Iwan.
23, Gwener: LLANBERIS – Te bach yr Henoed.
WAUNFAWR – Plaid Cymru – Noson o Ymryson yn y Marbryn, Caernarfon.
LLANBERIS – Noson Bingo a Chyw Iâr yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30.
27, Mawrth: WAUNFAWR – Theatr Bara Caws yn perfformio 'Bynsan Binc' yn Neuadd yr Eglwys.
30, Gwener: YR ARDAL – Cymdeithas Eryri – Triawd Coleg Bangor a noson o jas.

# CROESAIR RHIF 39



**AR DRAWS**
1. Fforest (7)
8. Llifeiriant (5)
9. Sialens (3)
10. Ardal (3)
11. Llestr Mawr (3)
13. Byw (3)
16. Pryd o lysiau – a llefrith y de (5,4)
17. Rhiant (3)
18. Perthynas (3)
23. Cnawd (3)
24. Cynnydd (3)
25. Cleisio neu anafu (5)
26. "Taith y –" (7)

**ILAWR**
2. Ar ddi-hun (4)
3. Ffurfafen (4)
4. Cerrig mân (3)
5. Ffwrn i wneud calch (4)
6. Darn o frethyn (4)
7. Cewch hwn am ennill (5,6)
9. Tymor llaith (6,5)
12. Anghenus (5)
13. Creulon (5)
14. Gwisgoedd (5)
1[illegible]. Gorchfygu (5)
19. Pwdin Tseiniaidd! (4)
20. Anrhydedd (4)
21. Stêm (4)
22. Twrw (4)
23. Trem neu blwc (3)

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel un llythyren ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Anfoner y cynigion fel arfer i: **Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis. £1** o wobr i'r enillydd.

**Atebion croesair 38**

**AR DRAWS:** 1. Mis Medi, 8. Celyn, 9. Ion, 10. Llwch, 11. Pwl, 13. Twb, 16. Dyffryn Lliw, 17. Urdd, 18. Ras, 23. Mes, 24. Dol, 2. Arfau, 26. Blaenor.

**I LAWR:** 2. Swnt, 3. Enlli, 4. Iach, 5. Acen, 6. Clep, 7. Yn ôl i'r ysgol, 9. Iâr fach yr haf, 12. Ewythr, 13. Tyrru, 14. Bonedd, 15. Crino, 19. Safn, 20. Drud, 21. Ysfa, 22. Odyn, 23. Mab.

**Enillydd croesair 38; Mr Dafydd Owen, 7 Bryn Hyfryd, Penisarwaun.**


**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**

**J.M. JONES A'I FAB**

**GWAITH CERRIG BEDDAU**

**DEINIOLEN**

**Ffôn: Y FELINHELI 670124**


# PLATIAD DIDDOROL

Taffi Triog i Alan Jones y pencampwr cŵn defaid o Lanllyfni, Spageti Bolones i Syr Wynff ap Concord y Bos o'r Bontnewydd a Salad Bresychen Wen i Madam Sera, sêr-ddewinydd, 'Helo Bobol'.

Dewisodd y rhain, ac eraill o bobl amlwg cyffiniau Caernarfon, eu hoff fwyd ar gyfer llyfr coginio sydd newydd ei gyhoeddi gan Gymdeithas Caernarfon a'r Cylch Dros Rai Araf eu Meddwl.

"Amcan y llyfr yw codi arian i goffrau'r gymdeithas a'r hyn a wnaethom ydoedd gofyn i bobl amlwg yn yr ardal ddewis resipi i'w chynnwys. Cytunodd 26 o bobl i wneud hynny – pobl sy'n amrywio o'r Co Bach ei hun i'r Dr John Gwilym Jones un o brif lenorion Cymru," meddai golygydd y gyfrol, Iona Glynn.

Enw'r gyfrol yw 'Ar Blât' ac y mae'r prydau a gynhwysir ynddi mor amrywiol â'r bobl sy'n cyfrannu: pwdin wedi ei enwi ar ôl mynydd gan Trevor Mathews, Torgoch mewn Hufen gan Hogia'r Wyddfa a Phorc Sur a melys gan yr Aelod Seneddol lleol, Mr Dafydd Wigley.

Eraill sy'n cyfrannu yw Annes Glyn, un o olygyddion 'Pais' – pwy well i ofyn iddi am resipi? – y Dr Eirwen Gwynn, John Ellis Williams y nofelydd, Mari Lewis, Mary Vaughan Jones, Ioan Bowen Rees, John Eilian, Y Parch Glyndwr Williams, I.B. Griffith, Mrs Dilys Elwyn Edwards, Richard Morris Jones, Miss Elizabeth Carter, Robert Skillicorn, y Parch Bill Parry, Owain Owain, Gerald Williams a W.H. Griffith, y dyn ceffylau.

Ond y mae mwy na resipiau yn y gyfrol. Dewisodd y golygydd nifer o gynghorion ynglŷn â gwaith tŷ a chegin fel a ymddangosai yn hen gylchgronau troad y ganrif – cynghorion y mae rhywun weithiau yn cael trafferth i ddyfalu ai buddiol ai peidio oeddynt.

Er enghraifft sut bydde chwi'n teimlo ynglŷn â chael oel gwallt wedi ei wneud o siwat cig dafad a lard ac a wyddech mai un driniaeth a gymeradwyid ar gyfer y pas ydoedd cynhesu traed y dioddefydd o flaen y tân cyn iddo fynd i'r gwely?

Pris y gyfrol yw 75c ac y mae ar werth yn Siop y Gymdeithas yn Stryd Porth Mawr, Caernarfon rhwng hyn a'r Nadolig neu gellir ei harchebu o Tŷ Newydd, Waun, Penisarwaun am 90 ceiniog yn cynnwys cludiant.

## LLANBERIS (Atodiad)

BWRDD FFILMIAU – Bwriedir dechrau Clwb Ffilmiau yn y pentref. Dylai unrhyw un sydd gyda diddordeb gysylltu â Mr Bryn Parry, Mafeking, Stryd Fawr, neu Mr John Williams, Eirianfa. Bwriedir paratoi ar gyfer pob oedran. Ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf o'r 'Eco'.

BINGO ELUSENGAR

Nos Wener, Rhagfyr 12 treuliwyd noson ddifyr iawn yng Ngwesty'r Gwynedd pryd y mwynhaodd pawb ginio Nadolig blasus ac yna Bingo. Rhoddwyd yr elw o £64 tuag at Gronfa Ymchwil yr Iau.

Dymuna'r trefnyddion ddiolch i'r canlynol: Non (Cacen Nadolig), Merched y Clinic a'u ffrindiau (Bocs Nwyddau), Gwyneth (Cacen Nadolig), Laura (Nwyddau), I EIFION am alw ac i Mr a Mrs Meirion Evans am baratoi gwledd mor flasus. Diolch yn fawr iawn.

Enillwyd y rafflau gan David Evans, Sybil Evans, Lois, Mrs Myfi Thomas, Mrs Gwyneth Lloyd Roberts, Shirley G.P.C. a Mrs Ruth Jones.

Cynhelir y Bingo nesaf nos Wener, Ionawr 23.

## CYFLE I ENNILL RECORD

1. Beth oedd record gyntaf Cwmni Sain?

2. Sawl record hir, gan gynnwys 'Plant y Fflam' a ryddhawyd gan Edward H. Dafis?

3. ^· ba record, a ryddhawyd yn ystod 1980 y mae alaw o'r enw 'Bwlch Llanberis'?

4. Enwch un grŵp sydd wedi recordio'r gân werin 'Llongau Caernarfon'?

**Anfonwch eich atebion at Iwan Roberts, Pendyffryn, 4 Talybont, Llanrug erbyn 17 Ionawr 1981. Bydd copi o'r record 'Plant y Fflam' i'r cyntaf cywir allan o'r het.**

# CHWARAEON

## RHAGOLYGON 1981

Erbyn y daw rhifyn cyntaf 1981 o'r 'Eco' o'r Wasg, bydd cryn dipyn o gemau wedi eu chwarae gan dri thîm yr ardal, gan gynnwys gemau Cynghrair, cwpanau lau a Chyfryngol Gogledd Cymru a rowndiau cyntaf cwpanau'r Gynghrair. Mae cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn addo prysurdeb mawr felly – hynny yw, os bydd y tywydd yn caniatáu.

Â hanner gemau'r Gynghrair wedi eu chwarae, mae Llanrug mewn sefyllfa foddhaol iawn – ar frig y Gynghrair, a 7 o bwyntiau ar y blaen i'r tîm agosaf – Pwllheli. Mae eu gobaith yn fawr hefyd am lwyddiant yng Nghwpan lau Gogledd Cymru. Ond rhaid iddynt chwarae'n arbennig o dda i gyrraedd 3edd Rownd y Cwpan Cyfryngol, oherwydd rhaid wynebu Nomadiaid Cei Connah – tîm sydd heb eu curo hyd yma y tymor hwn, ac sydd wedi cyrraedd 16 olaf Cwpan Cymru! Dylai'r gêm hon fod yn arbennig o ddiddorol ar gae Eithin Duon ar Ragfyr 20ed. Gwledd o bêl-droed – gobeithio – i'r cefnogwyr cyn y Nadolig.

Mae gemau cwpan wedi creu trafferthion braidd i Lanberis, ac y maent erbyn hyn 9 o bwyntiau ar ôl yn y Gynghrair, er gyda gemau mewn llaw. Ond os bydd gaeaf caled, gallant ei chael yn anodd erbyn diwedd y tymor, yn enwedig os byddant yn parhau'n y cwpanau hefyd. Mae gêm anodd yn eu hwynebu yng Nghwpan Barritt – oddi cartref yn erbyn y Drenewydd. Maent wedi bod yn anlwcus iawn hyd yn hyn yn eu gemau cwpan, ac wedi gorfod chwarae pob un bron oddi cartref. Ond na ddigalonner! Mae'r tîm bellach wedi hen arfer chwarae llawer o gemau yn ystod wythnosau olaf y tymor, ac rwy'n siŵr y byddant yn ymladd i'r eithaf rhag i'r hen elyn – Llanrug – ennill y bencampwriaeth yn ôl oddi arnynt.

Mae gobaith Bethel am y bencampwriaeth wedi diflannu, ond bydd ennill pwyntiau'n dal yn bwysig iddynt er mwyn rhoi hyder i'r tîm a'r clwb erbyn y tymor nesaf. Er hynny, mae tri o gwpanau'r Gynghrair yn aros ac mae siawns ganddynt o wneud yn dda'n y rheini. Mae Bethel y math o dîm lle gall unrhyw beth ddigwydd – yn enwedig mewn gemau cwpan a chyda Mêt yn y tîm gall siarad ei ffordd i unrhyw ffeinal!

Pob lwc i'r tri thîm yn ystod y flwyddyn newydd!

**BETHEL** – Rhagfyr distaw gan golli gartref i Harlech yn eu hunig gêm Gynghrair, a chael gwyliau Nadolig cynnar y Sadwrn diwethaf.

**LLANRUG** – Ymlaen o nerth i nerth fu hanes Llanrug y mis hwn eto, a'r hyn sy'n galonogol iddynt yw'r modd y mae pob chwaraewr yn gwneud ei ran a sgorio iddynt – y ddau gefnwr Dafydd Horman a Dafydd Owen yn cael gôl yr un yn Nhalysarn. Mae bron pob aelod o'r tîm wedi sgorio bellach ac y mae'r tri blaenwr yn sgorio'n rheolaidd – Hefin Pritchard (18 gôl), Dic Owen (17 gôl) a Wyn Hughes (15 gôl). Tro Dic Owen oedd sgorio 3 wrth roi curfa i Nefyn y Sadwrn diwethaf.

**LLANBERIS** – Mis siomedig i'r tîm hŷn, gan golli mewn dwy gêm cwpan. Penarlâg yn curo o 3-1 yng Ngwpan Cyfryngol Cymru, a'r Sadwrn diwethaf, Llandudno yn curo o 1-0 yng Ngwpan Cyfryngol Gogledd Cymru – y cwpan a enillodd Llanberis y llynedd. Roedd cic gosb i Llandudno yn chwarter olaf y gêm yn ddigon i ennill wedi i Lanberis frwydro'n galed gyda 10 dyn ar ôl i Ray Harding gael ei anfon o'r cae gan y dyfarnwr.

Mae'r tîm ieuenctid yn chwarae'n dda iawn, ac wedi ennill dwy o'u tair gêm ddiwethaf. Curfa i Fethesda a Nefyn, gan sgorio 10 gôl, ond colli o un gôl yn Mhorthmadog.

| | ch | e | cyf | colli | o bl. | yn erb. | pwynt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanrug | 17 | 13 | 3 | 1 | 54 | 17 | 29 |
| Pwllheli | 15 | 9 | 4 | 2 | 40 | 13 | 22 |
| Llanberis | 13 | 9 | 2 | 2 | 45 | 23 | 20 |
| Bethel | 17 | 4 | 3 | 10 | 23 | 55 | 11 |

## BETWS GARMON

EGLWYS ST. GARMON – Ar hyn o bryd mae'r eglwys yn cael ei pheintio, felly cynhelir y gwasanaethau ar bnawniau Sul am 3 o'r gloch yn y capel Plas-y-nant trwy garedigrwydd y perchenogion. Mae'r baned a bisgedi'n dderbyniol iawn o flaen tanllwyth o dân yn y Plas wedi'r gwasanaeth, a diolchir i Mr a Mrs Davies am eu croeso.

PWYLLGOR CŴN DEFAID – Mwynhawyd y cinio Nadolig nos Sadwrn, Rhagfyr 6 yng Nghastell Cidwm.

**Mae'r geiriau hyn i gyd wedi eu cuddio yn y sgwâr. Gellwch eu darganfod ar i lawr, ar i fyny, ymlaen, yn ôl ac yn groes-gongl.**

1. Siôn Corn, 2. Celyn, 3. Carolau, 4. Plygain, 5. Tegan, 6. Preseb, 7. Twrci, 8. Geni, 9. Angylion, 10. Uchelwydd, 11. Bethlehem, 12. Seren, 13. Seren, 14. Doethion, 15. Bugeiliaid, 16. Brenin, 17. Herod, 18. Thus, 19. Aur, 20. Anrhegion, 21. Crist, 22. Mair, 23. Dwyrain, 24. Llety, 25. Steffan, 26. Pantomeim, 27. Clychau, 28. Dathlu, 29. Iesu, 30. Diolch, 31. Llawenydd, 32. Oren, 33. Hosan, 34. Cerdyn, 35. Sach, 36. Teulu, 37. Canu, 38. Cnau, 39. Pluo, 40. Llif, 41. Llyfr, 42. Doli, 43. Car, 44. Tân.

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O | U | L | P | M | I | E | M | O | T | N | A | P | U | D |
| S | U | F | I | O | B | L | T | C | Dd | T | P | S | I | A |
| T | N | Ch | U | R | R | E | O | Y | R | A | E | O | N | Th |
| E | P | S | E | C | U | E | N | D | H | I | L | Ll | R | L |
| Ff | N | N | W | L | A | E | N | A | S | Ch | S | R | C | U |
| A | I | Y | U | N | W | R | Ng | I | N | E | G | T | A | Ll |
| N | Th | N | L | A | B | Y | O | Ch | A | S | E | Ch | E | R |
| P | A | U | Ll | E | L | N | Dd | L | Ch | G | Y | T | D | A |
| C | N | Y | S | I | C | R | W | T | A | L | Y | O | A | M |
| A | F | E | O | O | F | U | A | N | C | U | E | L | Ch | N |
| R | R | N | R | Th | M | E | H | E | L | Th | E | B | P | Y |
| P | M | N | O | E | B | U | G | E | I | L | I | A | I | D |
| Ch | S | A | N | A | S | O | H | O | R | P | W | R | O | R |
| I | N | O | I | G | E | Rh | N | A | Ll | O | Ph | C | P | E |
| A | P | S | H | R | N | I | A | R | Y | W | D | O | R | C |

**Rhif arbennig o 1 i 28 yw ateb pob cwestiwn. Mae pob rhif yn cyfateb i lythyren o'r wyddor. A - 1; B - 2; C - 3; Ch - 4 ac yn y blaen. Beth yw neges y golygyddion i'r darllenwyr?**

1. Dydd Gŵyl Sant Padrig.
2. Gair cyntaf teitl nofel gan Caradog Prichard.
3. Roedd cymaint â hyn o sylltau mewn coron.
4. Oedran pleidleisio.
5. Pythefnos.
6. Rhif anlwcus.
7. Gorchmynion.
8. Tîm rygbi'r Undeb.
9. Dydd Calan.
10. Un yn llai na'r mis bach.
11. Wythnos o ddyddiau.
12. Rhannwch 52 â 3.
13. Sawl esgid a gollwyd gan y cŵn bach?
14. Sawl ci bach aeth i'r coed?
15. Un yn fwy na thîm rygbi'r Gynghrair.
16. Hanner Rhifyn Rhagfyr o 'Eco'r Wyddfa'.
17. Chwefror – y lleiaf o nifer dyddiau.
18. 'Sei' neu 2½ – bellach wedi diflannu!
19. Rhif y llythyren olaf.
20. Fel 12.
21. Sawl gwaith eto 'Nghymru annwyl'?
22. Llyfr gan D.J. Williams.
23. Dydd Gŵyl Dewi Sant.
24. Tîm rygbi arall!
25. Swllt a chwech mewn ceiniogau – (hen bres!)
26. Hanner dwsin.
27. Sawl 'dyn bach ar ôl'?
28. Gini.
29. Chwarter awr.
30. Colofnau doethineb yn ôl Laurence o Arabia.
31. Fel 20.
32. Oesau dyn.
33. Copäon yr Eifl.
34. Dwsin a hanner.
35. Tudalen ychwanegol i'r 'Eco'?
36. Fel 10.
37. Cartref y Trefnydd Busnes x 2.
38. Lluoswch y rhif ag ef ei hun i roi 36.
39. Dau aelod o bob llais i wneud '-awd'.
40. Yr olaf a fyddant flaenaf.